# Partneriaeth yr Wyddfa

Adroddiad llawn o'r fewnbwn a gasglwyd
mewn sessiynnau galw draw mis Hydref, 2015

# The Snowdon Partnership

Feedback gathered from drop-in events
of October 2015 – full report



Catrin Ellis Associates Ltd.

# PARTNERIAETH YR WYDDFA

## Adroddiad llawn o'r mewnbwn a gasglwyd mewn sesiynau galw i mewn ym mis Hydref, 2015

**Catrin Ellis Associates Ltd.**

## Mynegai


| | | Tud |
|---|---|---|
| 1. | Cyflwyniad, crynodeb o'r canfyddiadau a chamau nesaf | 4 |
| | 1.1 Cyflwyniad | 4 |
| | 1.2 Canfyddiadau | 4 |
| | 1.3 Camau nesaf | 6 |
| 2. | Pwrpas cynnal sesiynau galw i mewn | 7 |
| | 2.1 Ynghylch y sesiynau galw i mewn | 7 |
| | 2.2 Gwybodaeth a ddarparwyd yn y sesiynau galw i mewn | 7 |
| 3. | Materion a godwyd gan gyfranogwyr | 9 |
| | 3.1 Sylwadau ar nodau'r bartneriaeth | 9 |
| | 3.2 Cynefinoedd a Rhywogaethau | 10 |
| | 3.3 Tirwedd, Harddwch Naturiol & Chynllunio | 12 |
| | 3.4 Mynediad a thwristiaeth | 14 |
| | 3.5 Hamdden a thwristiaeth | 18 |
| | 3.6 Treftadaeth, diwylliant a iaith | 20 |
| | 3.7 Yr economi wledig | 21 |
| | 3.8 Materion eraill | 22 |
| 4 | Adborth ychwanegol o'r Holiaduron | 25 |
| | 4.1 Ynghylch y cyfranogwyr | 25 |
| | 4.2 Sut wnaeth y cyfranogwyr ddod i wybod am y digwyddiad (au)? | 25 |
| | 4.3 Pa ddiddordeb (au) neu breeder (on) gymhellodd cyfranogwyr i fynychu? | 25 |
| | 4.4 Perthynas cyfranogwyr gydag ardal Yr Wyddfa? | 26 |
| | 4.5 Faint o bwys sydd gennych chi ynghylch sut y mae'r mynydd yn cael ei reoli heddiw i sicrhau manteision cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd? | 27 |
| | 4.6 Pa mor gefnogol ydych chi ynghylch gwneud rhywbeth i wella rheolaeth yr amgylchedd mynyddig? | 28 |
| | 4.7 Pa mor ddefnyddiol oedd y digwyddiad wrth esbonio amcanion y Bartneriaeth? | 29 |

| | | |
|---|---|---|
| | 4.8 Beth [os o gwbl] hoffech chi wybod mwy amdano, neu ei gael wedi ei esbonio yn fwy clir, sy'n ymwneud â gwaith y mae'r bartneriaeth yn ei wneud ac yn anelu at ei  wneud yn y dyfodol? | 29 |
| | 4.9 Pa mor ddefnyddiol oedd y digwyddiad o ran eich galluogi chi i gyfrannu eich syniadau a'ch pryderon? | 30 |
| | ATODIAD: Adborth ychwanegol o ffynonellau eraill | 32 |

## 1. Cyflwyniad, crynodeb o'r canfyddiadau a chamau nesaf

### 1.1 Cyflwyniad

Yn gyntaf oll, diolch i bawb ohonoch ddaeth i ddweud wrthym pa faterion sy'n peri pryder i chi a phai rai sydd o ddiddordeb i chi mewn perthynas â'r Wyddfa a'r ardal sy'n union o gwmpas y mynydd. Diolch am ddod yma i gael gwybod am Bartneriaeth Yr Wyddfa. Daeth tua hanner cant o bobl i dri digwyddiad, ym Meddgelert, Waunfawr, a Llanberis. Yr oedd faint o amser yr oedd gan bobl i astudio mapiau a delweddau perthnasol, darllen a threulio'r deunydd a gyflwynir ac adrodd eu barn a'u hadweithiau yn ôl wedi amrywio, ond ar gyfartaledd, fe dreuliodd bobl tua awr yn y digwyddiadau. Mae nifer o bobl wedi treulio llawer mwy o amser na hynny, ac yr ydym yn falch bod yr holl unigolion a oedd yn cymryd rhan, wedi buddsoddi cymaint o'u hamser yn cyfnewid gwybodaeth ac mewn deialog gydag aelodau o Bartneriaeth Yr Wyddfa.

### 1.2 Canfyddiadau

Yn y sesiynau galw i mewn, cyflwynwyd rhywfaint o wybodaeth gefndirol am bwy sy'n rhan o'r Bartneriaeth, a'r hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud, am y cynefinoedd a'r rhywogaethau sy'n rhan o gymeriad y mynydd, ei dirwedd, ei harddwch naturiol a materion sydd a wnelo chynllunio, mynediad a thrafnidiaeth, hamdden a thwristiaeth, treftadaeth, diwylliant ac iaith, a'r economi wledig - er mwyn i bobl wneud sylwadau arnynt. Roedd y sylwadau o bob rhan o'r tri lleoliad y gwnaethom ni ymweld â nhw, roeddynt yn cynnwys llawer o themâu cyffredin, er bod rhai amrywiadau lleol hefyd. Ar y cyfan rydym wedi derbyn ystod eang iawn o sylwadau a syniadau.

**O ran y Bartneriaeth a'i nodau**, yr oedd pobl yn gwerthfawrogi'r pwyslais a roddwyd ar ddulliau pragmatig, a'r awydd i gynnwys pobl leol. Fe wnaeth nifer o bobl wneud awgrymiadau o ran sut i'w cadw'n rhan o bethau: "Byddai'n wych cael lle er enghraifft ar-lein lle y gallwn ni fel pobl leol godi syniadau a phryderon pan fyddant yn dod i fyny hynny ydi nid dim ond bob yn hyn a hyn"; "Mae Model partneriaeth Abergwyngregyn yn ymdangos fel petai'n gweithio". Cafwyd awgrymiadau ynghylch pwy arall ddylai fod ar y bartneriaeth - mwy o gynrychiolwyr grwpiau defnyddwyr, er enghraifft, a CADW, dywedodd eraill y dylai bod yna fwy o gynrychiolaeth ar ran tirfeddiannwr / a deiliaid. Mynegodd ambell un rhywfaint o ansicrwydd ynghylch yr hyn y gallai'r bartneriaeth ei wneud "Angen cytuno a dilyn pwrpasau / clir", ac fe wnaethant gwestiynu faint o "weithgaredd rheoli" y gallai'r bartneriaeth ymgymryd ag o.

Cafwyd llawer o sylwadau am **rywogaethau ymledol**, a oedd yn adlewyrchu yn rhannol y sefyllfa gyda goruchafiaeth gwahanol rywogaethau ar draws yr ardal, er enghraifft Rhododendron tuag at y de ar y mynydd. Fe wnaeth llawer o bobl sylwadau ar yr angen i ddeall heriau rheoli tir yn well, **rôl amaethyddiaeth** a rheoli pori'n ofalus o ran cynnal agweddau ar y dirwedd yr ydym yn gyfarwydd â hwy, atal, neu arafu lledaeniad rhedyn ac eithin; ac fe

wnaeth rhai dynnu sylw at faterion sy'n gysylltiedig â chynlluniau rhagnodol fel Glastir.
Fe wnaeth nifer sylwadau ar sut y byddai gwell **darpariaeth o wybodaeth am gynefinoedd a rhywogaethau arbennig yr ardal** yn helpu pobl i gydnabod statws yr ardal fel gwarchodfa natur, ac yn annog mwy o **barch** ar gyfer yr ardal. Gallai mwy o barch yn ei dro annog **ymddygiad sy'n fwy cadarnhaol** - er enghraifft cadw at lwybrau er mwyn lleihau erydiad, a mynd a sbwriel adref, cau giatiau, cadw cŵn dan reolaeth, trin da byw gyda pharch: "Sicrhau bod ymwelwyr yn gallu ael gafael ar wybodaeth yn hawdd i ychwanegu gwerth at eu hymweliad yn ogystal â throsglwyddo gwybodaeth am ddiogelwch".

Fe wnaeth **materion cynllunio** greu cryn ddiddordeb, yn enwedig yr angen i alluogi datblygiadau priodol sy'n annog twristiaeth, yn caniatáu trigolion i ddatblygu busnesau gwledig a helpu'r boblogaeth leol, yn enwedig yr ifanc [siaradwyr Cymraeg] i fyw a gweithio yn yr ardal, er enghraifft "gallai Llanberis fod yn cynnig cymaint mwy i ymwelwyr (ac felly hybu economi'r / swyddi lleol) Mae pobl eisiau dod a gwario eu harian. Fe ddylwn edrych ar gyrchfannau alpaidd am gymhellion ymwelwyr ".

Yr oedd yna ddau fater cysylltiedig y gwnaeth llawer iawn o bobl sylwadau arnynt - sef cludiant, a'r angen am **opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus** integredig well, mwy hyblyg a fforddiadwy, a **pharcio**. Fe wnaethant dynnu sylw at yr angen i gynllunio opsiynau ar gyfer hwylustod defnyddwyr, wrth iddynt symud i'r mynyddoedd, yn ogystal â rhwng trefi a phentrefi lleol, rhoi sylw / cyhoeddusrwydd effeithiol i'r opsiynau hyn a gwneud amserlenni yn syml i'w darllen. Fe wnaethant awgrymu defnyddio cerbydau llai, a darparu gwasanaethau amlach.

Fe awgrymodd pobl bod angen cael ymagwedd fwy bragmataidd tuag at barcio, oherwydd mae'r rhan fwyaf o bobl yn cyrraedd mewn ceir. Mae dirwyo ceir sydd wedi cael eu parcio ceir yn anghyfreithlon yn bwnc dadleuol: "Stopiwch roi tocynnau parcio i bobl ym Mhen y Gwryd a darparwch mwy o leoedd gyda mesurydd yno - mae'n beth digroeso iawn i roi tocynnau pario i ugeiniau o ymwelwyr bob penwythnos"; "Mwy o reolaethau parcio hynny ydi wardeniaid tocynnau drwy'r dydd bob dydd yn ystod y tymor prysuraf".

Fe gafodd y gwaith cynnal a chadw **llwybrau troed** ei gymeradwyo, ond mae yna ymdeimlad bod hon yn dasg di-ddiwedd. O ystyried y nifer cynyddol sy'n dod i'r ardal,  y duedd i bobl gymryd rhan mewn digwyddiadau mawr wedi'u trefnu a gweithgareddau elusennol, ac yn sgil hynny y niferoedd cynyddol o bobl nad ydynt wedi paratoi ar gyfer yr holl y gall y mynydd ei daflu atynt (tywydd cyfnewidiol,  gwelededd gwael ac ati) mae yna angen canolbwyntio ar roi canllawiau priodol i ymwelwyr - gwell arwyddion, cyfarwyddiadau ynghylch sut y dylent ymddwyn (er enghraifft peidio ag adeiladu carneddau bah, cau gatiau, cadw at lwybrau hyd yn oed os ydynt wedi cael eu herydu, yn hytrach na chreu rhai newydd ... ..) . Fe gafwyd llawer o drafodaeth ar ddiwallu anghenion gwahanol ddefnyddwyr, yn enwedig cerddwyr llai profiadol (darpariaeth / hyrwyddo llwybrau lefel isel) a rhai sydd ar gefn ceffyl.

Roedd yna bryder ynghylch **digwyddiadau mawr** hefyd, oherwydd y straen maent yn ei roi ar yr amgylchedd a'r cyfleusterau, a'r canfyddiad eu bod yn dod â manteision economaidd cyfyngedig. Awgrymodd rhai y dylid ymchwilio i ffyrdd y gallai ymwelwyr gyfrannu mwy at gynnal a chadw'r ardal, er enghraifft, codi tâl o ryw fath fel treth neu gyfraniad gwirfoddol. Roedd eraill eisiau i ddigwyddiadau o'r fath fod yn gyfyngedig.

Teimlai llawer o bobl bod hyrwyddo'r iaith Gymraeg, ac enwau lleoedd yn arbennig, yn bwynt gwerthu unigryw yr ardal, a gellir ei ddefnyddio i lawer mwy o effaith cadarnhaol "Mae angen i'r iaith Gymraeg gael ei dathlu a'i hyrwyddo fel atyniad yn hytrach na'i bod yn cael ei hystyried yn broblem. Byddwch yn falch ohoni ewch ati i'n annog ni i ddefnyddio ychydig o eiriau ee Yr Wyddfa!"  "Angen gwarchod enwau lleoedd hanesyddolbeth am newid enw 'Mallory's Bar! Rhaid rhoi perswad ar fusnesau a safloedd twristiaeth e.e Sygun, Rheilffordd yr Wyddfa i fod yn hollol ddwyieithog."

**1.3 Camau Nesaf**

Bydd y digwyddiad nesaf a fydd yn cael ei gynnal yn weithdy gyda'r nos yn Llanberis, ar y 9fed o Dachwedd lle rydym yn gobeithio clywed mwy gennych am faterion penodol yr ydych wedi tynnu sylw atynt yn y sesiynau galw i mewn hyn, a lle byddwn yn dechrau edrych ar unrhyw gyfleoedd cymhellol y gall y Bartneriaeth eu datblygu er mwyn ymateb i'r heriau yr ydych wedi eu disgrifio. Byddwn yn edrych ar rai atebion cynnar posibl i rai o'r materion yr ydych wedi eu codi, yn ogystal ag edrych ar ffyrdd y gallwn fynd ati i gael gwared ar rwystrau wrth ddatblygu ymatebion i broblemau a heriau cyfredol a'r rhai y byddwn yn eu hwynebu yn y dyfodol.

Mae Partneriaeth Yr Wyddfa yn bwriadu ymateb i'ch galwad am fwy a gwell cyfathrebu, a byddwn yn gofyn i chi am eich awgrymiadau ar gyfer sut y gellir trefnu hyn yn y gweithdy.

Edrychwn ymlaen at eich gweld eto yn fuan!

## 2. Pwrpas cynnal y digwyddiadau galw i mewn

Cafodd y sesiynau galw i mewn eu cynnull a'u cynnal gan Bartneriaeth Yr Wyddfa. Eu nod oedd cyflwyno'r bartneriaeth a phwrpas y bartneriaeth, ac i ofyn am farn pobl sy'n byw ar Yr Wyddfa ac o amgylch yr ardal gyfagos, y rhai sy'n gweithio yno neu'n ymweld ac yn mwynhau'r Wyddfa ar sut i weithio gyda'i gilydd i ddatblygu a darparu'r trefniadau rheoli gorau posibl ar gyfer y mynydd eiconig hwn. Gofynnwyd i gyfranogwyr pa faterion yr hoffent weld pobl yn mynd i'r afael â hwy? Gallai'r materion hyn fod yn bryderon, yn bethau y gellid eu gwella, neu'n bethau yr hoffai bobl weld mwy neu lai ohono.

### 2.1 Am y sesiynau galw i mewn

.

Cynhaliwyd tri digwyddiad galw i mewn ym Meddgelert ar y 5ed o Hydref, yn Waunfawr ar y 12fed o Hydref ac yn Llanberis ar y 14eg o Hydref. Yr oedd pob un sesiwn galw i mewn yn dilyn yr un patrwm - cyfres o baneli dwyieithog, a oedd yn rhoi ychydig o eglurhad a gwybodaeth gyd-destunol, ac yna gwagle er mwyn galluogi cyfranogwyr i ychwanegu eu sylwadau. Yr oedd yr arddull gwaith yn anffurfiol ac yn darparu strwythur agored ac eglur er mwyn annog deialog eang, gan alluogi cyfranogwyr i gyfrannu'n llawn, ac i gyflwyno unrhyw bwnc yr oeddent hwy yn ei ystyried yn berthnasol.

Roedd y cyfranogwyr yn gallu gweld / adolygu nodiadau a adawyd gan bobl eraill a oedd wedi ymweld yn gynharach, ac yn gallu ymateb i'w sylwadau, trwy nodi eu bod yn cytuno, darparu persbectif amgen arall neu nodi nad oeddynt yn cytuno.

Cafodd y sesiynau galw i mewn eu cynllunio a'u hwyluso gan Dr Catrin Ellis Jones, trydydd parti annibynnol, sy'n arbenigo mewn prosesau deialog a chymunedol ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Roedd cynrychiolwyr o sefydliadau sy'n aelodau o'r bartneriaeth hefyd yn bresennol, gan helpu i ddarparu gwybodaeth os oedd cyfranogwyr yn gofyn cwestiynau, ac er mwyn gwrando ar bwyntiau / sylwadau yr oedd yn well gan y cyfranogwyr siarad yn eu cylch.

***Am yr adroddiad hwn***

*Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei gynhyrchu gan Catrin Ellis Jones yn seiliedig ar nodiadau a wnaed gan gyfranogwyr yn y digwyddiadau galw i mewn, yr holiaduron yn ogystal â nodiadau, sylwadau ar trydar a negeseuon e-bost a anfonwyd yn dilyn y digwyddiadau.*

*Roedd y digwyddiadau yn ddwyieithog; ac fe wnaeth y cyfranogwyr eu cyfraniadau trwy gyfrwng yr iaith yr oeddent yn ei dewis.*

*Yr oedd y blychau llwyd, fel yr un hwn, a gynigiwyd ar ddechrau rhai rhannau, yn ceisio egluro, er budd darllenwyr nad oedd yn cymryd rhan, beth oedd y gweithgaredd neu dasg, a arweiniodd at yr allbwn sy'n dilyn.*

## 2.2 Gwybodaeth a ddarparwyd yn y seisynau galw i mewn

Roedd y paneli darparu gwybodaeth yn y sesiynau galw i mewn wedi eu trefnu yn y drefn a ganlyn:

- ***Croeso / Welcome***
- ***Pwy ydym ni, pam partneriaeth, a pam rwan?***
- ***Cynefinoedd a rhywogaethau***
- ***Tirwedd, harddwch naturiol a chynllunio***
- ***Mynediad a thrafnidiaeth***
- ***Hamdden a thwristiaeth***
- ***Treftadaeth, diwyllant a iaith***
- ***Economi wledig***
- ***Unrhyw faterion eraill***
- ***Diolch i chi am gyfrannu***

*Mewn ymateb i'r adborth gan nifer o gyfranogwyr, a oedd yn teimlo y byddent yn hoffi cael mwy o amser i adolygu'r wybodaeth a ddangosir, gellir ei lawrlwytho oddi ar dudalen gwefan Partneriaeth Yr Wyddfa http://www.snowdonpartnership.co.uk.*

*Noder, bwriedir i'r wybodaeth a ddarparwyd ysgogi trafodaeth a darparu gwybodaeth gefndirol gyfyngedig (nid oedd o bell ffordd, yn adolygiad cynhwysfawr o ddata perthnasol).*

## 3. Yr Wyddfa: materion a adnabuwyd yn y sesiynau galw i mewn gan gyfranogwyr

*Mae'r materion a atgynhyrchwyd isod yn cynnwys yr holl adborth a dderbyniwyd yn ôl, yn cynnwys sylwadau a wnaed ar bapur siart gan gyfranogwyr yn ystod y tair sesiwn galw heibio, ymatebion i holiaduron a'r cysylltiaau a anfonwyd i mewn yn ddiweddarach.*

*Maent yn cael eu rhestru o dan y penawdau a ddefnyddir yn y digwyddiadau galw i mewn a'r holiaduron cyfatebol.*

*Er mwyn dangos rhai amrywiadau yn yr ystod o sylwadau a wnaed o le i le o gwmpas Yr Wyddfa, rydym wedi rhestru'r holl sylwadau a gafwyd yn ystod y tri digwyddiad ar wahân. Mae materion wedi cael eu grwpio i mewn i is-themâu yn delio â phynciau tebyg, gan yr hwylusydd, er hwylustod y darllenydd.*

*Mae ✗ neu ✓ nesaf at sylw, yn dangos ble mae cyfranogwr (wyr) dilynol wedi anghytuno neu wedi cytuno (yn y drefn honno) gyda'r sylw hwnnw.*

### 3.1 Sylwadau ar nodau'r Bartneriaeth

**Beddgelert**

- Mae'r Wyddfa yn safle dringo creigiau pwysig yn rhyngwladol ac mae hyn angen cael ei gydnabod - mae angen i'r BMC & Chymdeithas y Cerddwyr fod yn bartneriaid a hefyd Clwb Dringo Porthmadog Climbing Club & Clwb Mynydda Cymru (Wales Climbing Club)
- Fe all gwir gerddwyr bryniau gael eu tan gynrychioli
- Cyfathrebu gyda chymunedau lleol a busnesau.
- Mwy o ymlgymiad gan grwpiau - mae'r bartneriaeth fel ac y mae hi ar hyn o bryd yn cynnwys tirfeddianwyr yn bennaf neu fe'i dominyddir gan fuddiannau masnachol.
- Sicrhau gwell cyfathrebu rhwng yr holl grwpiau defnyddwyr

**Waunfawr**

- Rhaid rhoid flaenoriaeth a chydnabyddiaeth i'r ffermwyr hynny sydd yn berchenog neu yn denantiaid ar y tir yma ac yn dibynnu arno am eu bywoliaeth.  Ni wnaiff y strategaeth weithio heb wneud hyn.
- A ddylai CADW gael ei gynnwys achos mae'r Wyddfa' o ddiddordeb treftadaeth mawr i nifer o bobl.
- Nid oes unrhyw sefydliad sy'n cynrychioli'r sector gweithgareddau awyr agored sy'n defnyddio'r ardal, er enghraifft canolfannau awyr agored, dringwyr, beicwyr mynydd, y sawl sy'n arwain teithiau ayyb Oni ddylai hwy gael eu cynnwys?
- Gormod o gynrychiolwyr uchod ar y G/gor!  Lleihau 'digwyddiadau' elusen ar y mynydd. Hawlen trefnydd – codi ffi defnydd digwyddiadau?

- Dim gweld pan ddylai Cyngor Conwy fod yn rhan gan nad yw yn nalgylch yr Wyddfa.
- Gall gwaith effeithiol ddim ond digwydd gyda llinellau cryf o gyfathrebu a phroses dryloyw.
- Byddai'n wych cael lle er enghraifft ar-lein lle y gallem ni bobl leol godi syniadau a phryderon pan fyddant yn dod i fyny hynny ydi nid dim ond bob yn hyn a hyn. ✓
- (Ymateb i'r uchod) – mae hyn yn dibynnu ar ymatebion amserol a chyson i ymholiadau / rheoli'r wefan a'r diweddariadau & chyfryngau cymdeithasol (hynny ydi amser a phres rhywun!!)

**Llanberis**

- Dylai'r bartneriaeth gynnwys y perchnogion tir a'r rhai hynny sydd yn dal yr hawliau porri ar y tiroedd dan sylw. Mae'r effaith fwyaf ar fywyd a bywoliaeth oherwydd amryw gynllun rheoli, ar yr amaethwr, ac heb yr amaethwr byddai mynediad ir ardaloedd yma yn anodd os nad yn amhosibl – eto yr amaethwyr sydd yn c ael y gynrychiolaeth wanaf.
- Gellid gwella'r gynrychiolaeth drwy roi llais i gerddwyr a dringwyr - y dewis amlwg yw y BMC.
- Cynrychiolaeth gan gyrff awyr agored fel CMP (BMC).
- Mae angen i BMC a chriw Achub Mynydd Llanberis gael eu cynrychioli yn ogystal â rhyw fath o lais ar gyfer preswylwyr lleol.
- Credu bod angen cadw'r 'Bartneriaeth' y canolog i fudiadau / cyrff hefo dylanwadau go iawn ac yn gallu ymrwymo ac wedyn y Bartneriaeth ehangach i gwrdd rhyw un neu ddwy waith y flwyddyn fel 'sounding board' ac i bledleisio aelodau sy'n gwneud i'r canol. Gellid sefyldu nifer o grwpiau tasg yn seiliedig ar beth sydd angen ei benderfynnu a'i wneud . Model partneriaeth Abergwyngregyn sydd i'w weld yn gweithio. Angen cytuno pwrpas/au clir.
- Byddai'n braf gweld mwy o fusnesau lleol yn ymglymu fwy.
- Dylai'r pwrpas gynnwys yr angen am wylltineb mewn amgylchedd fynyddig
- Mae'r rheolaeth angen canolbwyntio ar leihau effaith 'hurican / corwynt'? Ddim ychwnaegu ato na'i greu.

## 3.2 Cynefinoedd a Rhywogaethau

**Beddgelert**

- Dymuno gweld mwy o fioamrywiaeth, mae hyn yn ôl pob tebyg yn golygu lleihau pori a / neu ddatblygu Cynllun Bugeiliol Cwm Llan
- Gwaith cadwraeth gwych ar Stad Hafod y Llan – Gwartheg Duon Cymreig a'r cynllun bugeilio newydd.
- Lefelau pori addas ar draws y masif cyfan – byddai hyn yn dileu'r angen i gael ffensys rhwng daliadau, lefelau pori (a bugeilio) ar gyfer cynefinoedd penodol.
- Mae o wedi cael ei ddifetha gan ddefaid! Byddai bioamrywiaeth yn dda.
- Wedi ei reoli'n dda

- Mae'n fater i CNC / LIC yn yr ystyr y bydd bob amser yn cael ei ddominyddu gan gynlluniau amaeth amgylcheddol
- Rhaid gweithio mewn partneriaeth.
- Lefelau pori cynaladwy ar draws yr holl fynydd nid ond y ffermydd sydd yn fodlon cymryd rhan yn y cyllun.
- Rhaid i waith rheoli Rhywogaethau Ymledol barhau i wella'r ardal - rhagor o goed yn yr ardaloedd is.
- Angen plannu coed yng Nghwm y Llan (e.e Scott Pine) ✗
- Cwm y Llan – plannu coed e.e. Scots Pine ar gyfer gwiwerod Llwyd APC
- Ble mae'r holl flodau gwyllt?
- Rheoli'r Wiwer Lwyd (gwaredu) & Gwaredu a'r Minc.
- Defnyddio cerrig lleol ar gyfer gwelliannau & thrwsio llwybrau troed peidio hedfan cerrig i'r ardal.
- Byddai ennill statws Awyr Dywyll o fudd i lawer o anifeiliaid crepiwsgalaidd - y troseddwyr gwaethaf o ran goleuadau stadiwm yw Plas y Brenin o gwmpas eu manau parcio ceir ac ar y llethr sgio
- Angen mynd ar ôl statws Awyr Dywll yn enwedig ar gyfer PCE ar gyfer y nythfeydd o'r ystlumod pedol lleiaf o gwmpas Yr Wyddfa.
- A fyddem ni'n gallu cynhyrchu taflenni ar gyfer addysgu pobl am beth sydd ar Yr Wyddfa, neu ei wneud drwy gyfrwng y we.
- Gall newidiadau yn y tywydd wella problemau felly mae'n rhaid i ni geisio gwarchod yr hyn sydd ar ôl gennym.

**Waunfawr**

- Tan bori am fod Glastir yn broblem
- Ni ellir cynnal y tirlun na'r ardal yma hebo bori addas gan ddefaid, gwartheg a chefyllau. Rhaid rheoli prysgrwydd yn enwedig rhedyn.
- Problem o ddiffyg porri mewn rhai ardaloedd yn lladd llysdyfiant, creu problem rhedyn a cau ardaloedd i gerddwyr.
- Dylid osgoi gor bori a dylai unrhyw gynlluniau amgylchedd ar ffermydd gael eu datblygu yn ôl 'y fferm' i gefnogi rhywogaethau, nid un cynllun sydd i fod yn addas i bawb. Byddai torri lefelau stoc yn gweithio, mae brwyn, rhedyn, a trogod yn mynd yn broblem fawr.
- Yn ystyried fod gofalu am reoli cynefinoedd yr ucheldiroedd uwchben 2000 yn beth pwysig iawn.
- Angen rheolaeth sensitif ar dir uwch i ddiogelu planhgion alpaidd a chynefinoedd bregus.
- Gwelliant mewn gwarchod cynefinoedd a rhywogaethau. Gweithio efo'r diwydiant amaeth er mwyn llwyddo.
- Rheoli niferoedd geifr gwyllt trwy ddefnyddio'r dulliau difa cywir.
- Mae rhywogaethau ymledol yn broblem o ddifri – parhau i weithio ar reoli rhedyn a brwyn ac mae angen mwy o reolaeth.
- Rhedyn yn ymledu tua 2m y flwyddyn tua'r gogledd o Gwastadnant / Nant Peris.
- Rheoli rhododendron – gellir gweld y canlyniadau mewn rhai ardaloedd penodol. Dylid annog mwy o gynefinoedd coed brodorol.
- Improve upland paths where the erosion is at it's worst – more 'directional' posts.
- Sicrhau cadw llwybrau mewn cyflwr da.

- Cynefinoedd yn fwy pwysig na’r 'dirwedd’ sydd yn rhywbeth y mae pobl yn ei ganfod ac mae ffasiwn yn newid!!

**Llanberis**

- Cael y neges allan ei bod yn bwysig cadw ar y llwybrau i warchod y tirwedd o gwmpas. ✓
- Careful management of habitats is probably undertaken by CNC, the NT and the SNPA. It is important that the Snowdon Partnership is fully aware of this.
- Gallai rhai rhannau penodol gael eu ffensio ffwrdd er mwyn atal pori mewn ardaloedd sensitif.
- Annog cerddwyr i gadw at y llwybrau.
- Trefnu sesiynau i wirfoddolwyr helpu hefo clirio planhigion ymledol.
- Gwell addysg ynghylch bodolaeth y cynefinoedd & rhywogaethau hyn trwy gyfrwng y canolfannau croeso yn y Cymoedd – mae canolfan ymwelwyr Ogwen yn gwneud hyn yn well na’r rhan fwyaf.
- Mae angen i addysg / gwybodaeth par anghenion cynefinoedd fod fwy fwy ar gael.
- Mae’r rhan fwyaf o ymwelwyr yn anymwybodol o werth/bwysigrwydd yr wyddfa o rhan rhywogaethau a chynefinoedd.  Codi ymwybyddiaeth ei fod yn Warchodfa Natur Cenedlaethol.
- Clymu gwybodaeth am y bywyd gwyllt i fewn hefo gwybodaeth cerdded a dringo ac ar fapiau ac ati.  Gwybodaeth ar fysus y Sherpa ac yn y tai bach ac ati.
- Ailgyflwyno rhywogaethau prin / par gwneud rhai ardaloedd yn wyllt.
- Anogaeth – dim difetha nac addasu h.y. dim bleiddiaid, baeddod gwyllt ayyb.
- Diffyg gwirioneddol cynefinoedd ar gyfer adar / trychfilod.

## 3.3 Tirwedd, Harddwch Naturiol & Chynllunio

### Beddgelert

- Mae’r thema hon yn allweddol o ran cylch gorchwyl y grŵp
- Lefelau pori anaddas - gorbori ar leoedd mynyddig / lled rosydd mynyddig yn arwain at ffensys gormodol er mwyn rheoli pori. ✗
- Erydiad llwybrau troed (ond dim ond mater llinellol yw hwn - mae difrod ehangach yn cael ei achosi gan or-bori tirweddau a chynefinoedd dynodedig).
- Byddai datblygu llwybrau troed ar ochr y ffordd yn helpu.
- Mae angen mwy o addysg am y safle yn arbennig ar gyfer mynychwyr digwyddiad yr 'her'.
- A ddylai cwmnïau masnachol sy'n rhedeg her y 3 chopa a digwyddiadau eraill dalu? Yn enwedig pan fyddant yn difwyno creigiau / postio arwyddion a'u gadael yno.
- Mae cannoedd o filoedd yn ymweld - a does dim iddynt ei wneud unwaith mae'r cerdded drosodd.

- Dim byd i blant ifanc ei wneud ar ddiwrnodau gwlyb (o'i gymharu â Scafell ac Ardal y Llynnoedd)
- Os gwelwch yn dda a wnewch chi lacio cynllunio i annog buddsoddiad yn yr ardal.
- Mwy o fuddsoddiad mewn atgyweirio llwybrau - mwy o reolaeth dros cynlluniau hydro.
- Mae'n edrych wedi gwisgo
- Cynlluniau Trydan dwr ddim yn cuddio pibellau oni bai eu bod yn cael eu gorfodi i wneud hynny - Rhyd Ddu! Y Pass, ac eraill
- Nid dim ond perthnasol i'r Wyddfa ond y rhan fwyaf o'r golygfeydd o'r dirwedd ehangach ac mae angen gofal gyda chynlluniau trydan dŵr
- Rhaid cadw safonau cynllunio yn y PC ac o GWMPAS y PC cadwch gynllunio gyda APCE!!
- Cynllunio, cynllunio, cynllunio, mae'n rhaid i ni ddatblygu Parc deniadol lle mae pobl eisiau aros.

**Waunfawr**

- Mae'r tim llwybrau yn gwneud gwaith ardderchog – mae'n hanfodol parhau gyda'r gwaith ✓
- Tomenni llechi ddim yn hyll bellach, maent yn rhan o'r dreftadaeth a'r diwylliant
- Caru dysgu am hanes lleol, defnydd tir blaenorol ayyb ✓
- People don't realise that it is sheep / grazing / farming that have created the scene.
- Diddorol cwestiynu – diffiniad pwy o 'naturiol'? [wrth gyfeirio at "harddwch naturiol"]
- Tirlun wedi ei greu ydi hwn ac nid yn hollol naturiol – mae llwybrau a'i cynhaliaeth yn angenrheidiol.
- Angen gwarchod hyny o dirlun a sydd yn bosibl.
- Tirwedd yn cau i fyny hefo rhedyn – dim hawl i wistrellu erbyn hyn.
- Dylai unrhyw ddatblygiad fod yn sensitif i'w amgylchoedd a lle bo modd gwella / adfer / cadw strwythurau presennol.
- Byddai unrhyw 'dirlunio' pellach ar lwybrau ayyb (heblaw'r rhai sy'n angenrheidiol ar gyfer dibenion ymarferol) yn dechrau edrych yn rhy ffurfiol. Mae'r cydbwysedd ar hyn o bryd yn dda (ond efallai y bydd rhai rhannau angen sylw yn fuan)
- Gwneud gwaith llwybrau da ond peidio a'i or-wneud, ac osgoi gormod o dirlunio. Ei gadw'n syml a di ymyrraeth sydd orau.
- Pryd fydd y llwybr (presennol / sy'n cael ei wella) o Nant Peris i Pen y Pass (heibio Pant y Gromlech) yn cael ei hyrwyddo'n well?
- Mae yna nifer cynyddol o garneddau yn cael eu hadeiladu gan ymwelwyr sydd ddim yn bwriadu gwneud dim drwg ond nid ydynt yn deall y sefyllfa – mae'r carneddau bach hyn angen cael eu gwastadu oherwydd rwy'n credu eu bod yn cyfrannu tuag at erydiad llwybrau.
- Mwy o byst cyfeiriad llwybr er lleihau erydiad.
- Gwella llwybrau uwch er lleihau erydiad.
- Dallier ati i warchod y llwybrau o'r gwaelodion at y copa!
- Angen gwella llwybrau.
- Adeiladu waliau cerrig byr er cyfeirio llwybrau.

- Cynnal a chaw waliau cerrig yn bwysig hefyd.
- Gweithio gya thirfeddianwyr i warchod waliau cerrig a pheidio ag annog weiren bigog.
- Codi ffi parcio Gorffwysfa uchaf i £20.00.*Mwy o hyblygrwydd i adfer hen adeiladau (fel yn Ardal y Llynnoedd)*
- Datblygu sensitif- cynllunio fel bod galw lleol.

**Llanberis**

- Cyflwr y llwybrau (arbennig Llwybr Llanberis) angen sylw.
- Mae dull gweithredu cydymdeimladwy tuag at gynnal a chadw llwybrau yn hanfodol i warchod yr agwedd fynyddig / o wylltineb gan osgoi ymyrriadau dynol fel waliau cerrig & physt arwyddion lle bynnag y bo hynny'n bosibl.
- Dylai datblygiad gael ei gadw i'r lleiafswm o ddifri.
- Cadw deddfau cynllunio llym er mwyn cyfyngu ar ddatblygiad.
- Rhaid cofio fod pobl yn byw a gweithio yn ardal yr Wyddfa. Defnyddio cynllunio yn sensitif i anghenion lleol / amddiffyn y tirwedd.
- Materion sbwriel / dympio i fyny'r bwlch yn PYP / Gwesty PYG & chilfannau. Dim gwybodaeth am fod yn gyfrifol yn yr amgylchedd. Mae angen mynd i'r afael â hyn.
- Mae sbwriel yn broblem yn enwedig ar y llwybrau poblogaidd a ddefnyddir ar gyfer yr 'heriau' 3 copa a.y.y.b. Wedi gweld arwyddion mawr ar ddechrau mewn gwledydd eraill hefo lluniau sbwriel a faint mae nhw yn gymryd i bydru.
- Mae sbwriel yn fater o bwys MAWR ac mae angen mynd i'r afael â hyn yn well.
- Efallai ei fod yn syniad gwallgo ……ond cael biniau sbwriel ar bob un llwybr sy'n mynd i fyny'r Wyddfa (efallai y byddai pobl yn rhoi'r gorau i daflu eu sbwriel ar y llawr).
- Dathlu enwau'r nodweddion cymraeg llawer mwy. Yr enwau Cymraeg sydd yn dweud cymaint wrthym ac yn cyplysu gyda chynefinoedd ac ati a rheolaeth/defnydd y gorffenol.
- Archeoleg ddiwydiannol – Hanes – Gwneud yn fwy o'r nodweddion hynod yma. ✓
- Cynnal a chadw harddwch naturiol y Parc yn egnïol
- Cadw'r defaid i warchod y dirwedd a'r harddwch naturiol.

**3.4 Mynediad a chludiant**

**Beddgelert**

- Parcio ceir – Bwlch Llanberis / Penygwryd – does dim capasiti digonol nac opsiynau amgen -
- Dylid cynyddu gwasanaeth y Sherpa nid ei dorri.
- Roedd y bws o Gaernarfon- Beddgelert yn arfer aros yn Rhyd Ddu am 9.00 y.b. Mae'r S97 o Borthmadog i PYP yn gadael Beddgelert am 9.30. Roedd yr amserlen hon yn ddeflrydol ar gyfer cyrraedd PYP – bellach mae hyn wedi newid ac yn awr mae'n gadael Rhyd Ddu am 9.25 sy'n rhy hwyr i ddal yr S97 ym Meddgelert!! Os gwelwch yn dda a wnewch chi hyrwyddo ochr gorllewinol Yr Wyddfa mae cerddwyr / dringwyr Yr Wyddfa yn gwybod am Llanberis & PYP ond nid ydynt yn gwybod am Rhyd Ddu. Dylid

mwyafu'r posibiliadau parcio wrth lwybr Rhyd Ddu & Snowdon Ranger. Gwneud rhodfa gerdded ddiogel o Rhyd Ddu i faes parcio Yr Wyddfa. Ymestyn y daith gerdded o Feddgelert - Rhyd Ddu i Waunfawr. Gwneud hi'n bosib i fysiau dderbyn tâl trwy gyfrwng cardiau debyd / credyd ym maes parcio Rhyd Ddu.

- Mae pob un o'n gwestai gwyliau ni'n cwyno nad oes yna gludiant.
- Mae Sherpa'r Wyddfa yn bwysig ac mae angen iddynt weithio gyda Rheilffordd Yr Wyddfa mae angen cysylltu parcio gyda bysus – mae Gwasanaeth ar y Sul o Gaernarfon yn hanfodol.
- Mae angen gwell parcio – mae angen dull pragmataidd tuag at barcio er mwyn cwrdd â'r galw.
- Bydd y rhan fwyaf yn cyrraedd mewn car ac mae gen i ofn y bydd yn rhaid i ni drio'n galetach i ddelio â hyn.
- Gwella parcio – Snowdon Ranger Rhyd Ddu.
- Parcio – angen cynnal a chadw'r llwybrau a gwneud gwelliannau ar y Watcyn uchaf
- Newydd! Cyd gysylltu llwybrau ar gyfer cerddwyr a beicwyr mynydd o gwmpas Yr Wyddfa h.y.Rhyd Ddu i Lanberis, Llanberis i Pen y Pass, Pen y Pass i Nantgwynant.
- Problemau parcio ar y briffordd.
- Nid yw bwcio pob car sydd wedi cacel eu parcio yn anghyfreithlon yn datrys y mater hwn.
- Clirfan ger PyG – mae angen egluro'r risg a'r cosbau yn well oherwydd mae nifer yn gadael yr arda ar ôl cael profiad gwael.
- Gallai Parcio & Chludo helpu gyda pharcio ceir lle nad yw'r meysydd parcio presennol yn gallu ymdopi gyda nifer y ceir ar gyfer cerddwyr yn yr ardal.
- Gwell arwyddion ar gyfer llwybr PYG – Pen y Pass, Gwell trafnidiaeth gyhoeddus & chyhoeddusrwydd. ✓
- Clymu'r bysiau a'r trenau gyda'r cerddwyr – ddim fel arall rownd.
- System cludiant cyhoeddus wedi ei gefnogi'n well sy'n fwy dibynadwy.
- Gallai gwasanaethau bws gael eu gwella / datblygu. Byddai llwbrau beicio di draffig o Landudno yn dda wedi ei gysylltu gyda Lon Las Eifion.
- Bysus llai a mwy rheolaidd o gwmpas Yr Wyddfa ac yn gynnar gyda'r nosau i'w gweithredu rhwng Y Pasg a'r Hydref.
- Gwell gwybodaeth yn Nant Peris / Capel Curig bod y meysydd parcio yn llawn.
- Parcio ceir yn rhy ddrud dylai fod yn rhatach gyda mwy o lefydd.
- Mae'r holl lwybrau i fyny'r Wyddfa wedi cynyddu o ran defnydd ac mae angen iddynt i gyd gael eu cynnal i safon uchel & draeniad!
- Creu llwybr da o Pen y Pass i Nant Peris.
- Gwella'r llwybrau troed presennol – dim datblygu rhai Newydd costus.
- Grwpiau Duke of Edinburgh ddim yn gydweithredol iawn, angen rhoi gwell hyfforddiant iddyn nhw.

**Waunfawr**

- Maes parcio gyferbyn â'r tren y Wyddfa – dylai bod y pobl sy'n gweithio yno'n nabod y lle y natur, ein diwylliant. Mae'n gyfle i rhoi croeso ac argraff i ymwelwyr.
- Angen llawer mwy o feysydd parcio bychan o gwmpas y lle – ardal Pen y Gwryd yn gywilyddus.
- Parcio'n mynd yn beth prysur iawn yn Nantperis, pobl yn parcio ym mhobman gan gynnwys baeau yn Gwastadnant.
- Mae parcio yn broblem wrth Betws Garmon ar benwythnosau prysur. Mae ceir wedi cael eu parcio ar ffordd brysur lle nad oes cilfannau na lle i dynnu i mewn. Mae angen maes parcio mwy neu linellau parcio dwbl melyn.
- Rhedeg gwasanaeth bws Sherpa da + gwasanaeth bws o orsaf dren Bangor i Lanberis sy'n siwtio'r rhai sy'n cyrraedd ar y tren.
- Gellid gwella'r cysylltiadau bws o gwmpas Yr Wyddfa - cytuno ✓✓ cytuno ✓
- Mae bysys yn aml ddim yn troi fyny, felly mae pobl blinedig iawn yn cerdded ar hyd y ffyrdd & tro nesaf ni fyddant eisiau defnyddio'r bws – felly – mwy o geir! Gwella dibynadwyedd. ✓
- Dylai fod yna drafnidiaeth gyhoeddus am ddim ar gyfer ymwelwyr & phreswylwyr wedi ei dalu amdano o 'dreth twrisiaid' sy'n debyg i'r cynlluniau mewn ACPS Ewropeaidd.
- Pan ddaeth y Daith ar draws Prydain (Tour of Britain) drwodd yr oedd pobl yn parcio ym Mhen y Gwryd am gyfnod byr, ceir llawn o feiciau ac ati. Fe welsom tua 30+ o docynnau parcio ar geir wedi parcio yn ddiogel ond heb docynnau. Roedd pawb o gwmpas a'r holl bobl leol yn flin iawn ein bod wedi gwneud hynny. Beth oedd y cyngor yn ei feddwl? Nid yw'n rhoi teimlad da i rywbeth y buasem yn sicr yn awyddus i'w lywyddu eto! Colli enw da a refeniw ayyb.
- Mae'n anghywir rhoi tocynnau parcio ar geir sydd wedi parcio ar hyd y ffordd o Ben y Gwryd ar ochr Gwynedd mae hyn yn beth cas ac annisgwyl.
- Mwy o feysydd parcio a codi tal teg am barcio.
- Codi cosb dirwy parcio heb dalu / codi ffir parcio Gorphwysfa Uchaf.
- Cynlluniau cludiant wedi eu rhedeg gan y gymuned.
- Gwell gwasanaeth bysiau drwy'r flwyddyn – hybu parcio yn pentrefi e.e Glyn Rhonwy.
- Bysus Sherpa yn ddefnyddiol iawn, annog mwy o ddefnydd – colled fawr ym Methesda – y gwasanaeth yng Nghapel Curig wedi cael ei atal. ✓
- Roedd gan ganolfan ymwelwyr Bwthyn Ogwen amserlenni ar gyfer y gwasanaeth Sherpa nad yw'n bodoli mwyach ym mis Awst 2015.
- A allai tacsis o Fethesda i Fwthyn Ogwen gael cymorthdal am ddim?
- Angen mwy o wybodaeth am lwybrau lefel isel o gwmpas massif Yr Wyddfa, heb fynd at y copa – ac o gwmpas mynyddoedd eraill gogledd Eryri.✓
- Rhai giatiau yn berryg iawn ar gyfer marchogwyr. Dylai'r llwybrau fod yn addas ar gyfer marchogwyr.
- Mae'r neges ein bod yn rheoli digwyddiadau yn wael ac mae'n rhoir neges i ymwelwyr newydd ac eraill i'r ardal ei bod hi'n iawn taflu eu sbwriel yn gallu cael 'effaith barhaol a negyddol'.

- Mae'r sbwriel sy'n gysylltiedig â rasus elusennol gan gynnwys Marathon Yr Wyddfa yn ddrwg. Pam ddim defnyddio'r elw o'r ffioedd mynediad i dalu am gasglu sbwriel?
- Bydd yn rhaid i'r Parc Cenedlaethol yn hwyr neu hwyrach gymeryd mesurau i reoli'r nifer o ymwelwyr yn yr ardal yma o'r Parc.
- Problemau gyda cherbydau sy'n gyrru oddi ar y ffordd ar Moel Eilio a Chefn Du!
- Pobl yn 'creu' llwybrau – erydiad yn graith anodd i'w wella a pobl eraill wedyn yn cadw i'r 'trywydd'. Problem anodd i'w ddatrys.
- Pobl yn disgyn o'r mynydd (yn hytrach na dringo) yn gweld y fan mae nhw'n anelu amdani e.e tent, tafarn ac yn mynd mewn llinell syth amdani heb barchu llwybrau, waliau, ffensus ac ati … mwy o barch!!
- Mwy o nwyddau a chynnyrch Cymreig ym mwyty Pen y Pass.

**Llanberis**

- Hysbysebu cynlluniau parcio a reidio ar gefn tocynnau parcio yn y cyffiniau e.e Caernarfon.
- Parcio ger amwynderau gyda chludiant i'r prif bwyntiau dechrau a gorffen ar gyfer y mynyddoedd.
- Hysbysebu cliriach o gynllun parcio a theithio drwy wefan y Cyngor.
- Angen gwell trafnidiaeth cyhoeddus (park & ride).
- Cynllun Sherpa symlach, amlach a mwy cydlynus. Byddai gallu atal beicwyr ar y llwybrau prysur yn dda. Mae nhw'n beryg.
- Ailagor Rheilffyrdd - Caernarfon / Llanberis
- Gwasanaeth bws - gwasanaeth llwybr - bysiau yn mynd o gwmpas y mynydd i gyfeiriadau gwahanol - helpu gyda theithiau cerdded llinellol.
- Gwasanaeth bws / cludiant ddim yn ymarferol yn enwedig gyda phlant – anodd iawn i gynllunio, cysylltiadau ddim yn rheolaidd.
- Mae hwn yn fater enfawr sy'n effeithio ar drigolion lleol ac ymwelwyr y dylid ymdrin ag ef ar frys. Nid yw rhoi tocynnau i bobl am beidio parcio yn y meysydd parcio llawn yn ateb, dim ond yn ffordd o ypsetio ymwelwyr.
- Bws am ddim (rhad) a llawer mwy rheolaidd i'r Pass, neu i fynd i Ryd Ddu/ Ranger fel mewn cyrchfannau sgïo.
- Parcio a theithio a gwasanaeth bysiau yn annibynadwy - angen bod yn rhad ac am ddim ac yn rheolaidd.
- Materion Parcio - caniatáu i ffermwyr greu mannau parcio dros dro ar gyfer penwythnosau prysur. Gwell arwyddion i atal parcio ar y glirffordd drefol - tocynnau yn PR drwg i Eryri!
- Maes Parcio gwell neu yn dal mwy o geir yn Pen y Gwryd.
- Parcio ar gyfer dringwyr yn y Pass yn anodd yn yr Haf oherwydd nifer y ceir.
- Rhoi'r gorau i roi tocynnau parcio i bobl ym Mhen y Gwryd a chael mwy o fesuryddion parcio – mae'n beth digroeso iawn rhoi tocynnau i ugeiniau o ymwelwyr bob penwythnos.
- Mwy o reolaethau parcio h.y. wardeniaid tocynnau bob dydd drwy'r dydd yn ystod y tymor brig.
- Gwell arwyddion ar gyfer meysydd parcio talu ac arddangos.

### 3.5 Hamdden a thwristiaeth

**Beddgelert**

- Watkin Uchaf angen ei wella.
- Bagiau sbwriel yn cael eu gadael ar ôl ym maes parcio Llwybr Watkin gan ymwelwyr (a defnyddwyr cartrefi gwyliau)
- Pecynnau hylif egni yn cael eu gadael ar ôl gan feicwyr cyn dringo i fyny'r Pass i PYG.
- Rhaglen Addysg - Gwaith allgymorth i addysgu pobl cyn iddynt fynd ar yr Wyddfa
- Gwybodaeth glir syml ar gychwyn y llwybrau – heb eu gwanhau gyda gwybodaeth am gadwraeth, natur neu wybodaeth gorfforaethol
- Dim gormod o arwyddbyst, carneddau ayb diangen
- Datblygu llwybr cylchol 'amgen' yr Wyddfa i safon uchel – y gellir ei feicio efallai ✓
- Gwella cysylltiadau cludiant cyhoeddus (a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt)
- Nifer o "ddigwyddiadau" yn ymddangos fel petaent ar gynnydd! Mae mwy a mwy o'r rhain yn cynnwys beicio. Er ei fod yn weithgaredd sy'n amlwg yn ecolegol – mae digwyddiadau cynyddol yn golygu cynnydd mewn hyfforddiant a beicio cyflym. Eisoes cafwyd un ddamwain ddifrifol yn Rhyd Ddu.
- Digwyddiadau - ar adegau penodol o'r flwyddyn mae'n ymddangos fel eu body n digwydd bob yn ail benwythnos ac yn cynnwys arwyddion - rhai wedi eu paentio ar y ffordd.

**Waunfawr**

- Pobl yn defnyddio beics ar lwybrau cerdded. 'scrambler' ac off roading ar y mynyddoedd (Moel Eilio) – diffyg gwybodaeth/dealltwriaeth.
- Gwahardd beics mynydd o'r Wyddfa.
- Handgliders/paragliders ar Moel Eilio dychryn da byw yn enwedig amser wyna.
- Pobl yn taflu sbwriel.
- Pwysigrwydd addysgu, cod ymwybyddiaeth a meithrin parch.
- Gormod o rasus a 'triathlons' ymlaen heb ddim parch i dirfeddianwyr gyda cwmniau o bell yn elwa – cytuno ✓
- Cwmniau preifat yn manteisio yn arianol ar dir preifat – paraglidio, teithiau tywys ayyb heb gyfrannu ir tirfeddianwr.
- Cadw gwartheg ar dir agored yn mynd yn amhosib oherwydd 'claim culture'.
- Gormod o 'Wersylla Gwyllt' gyda grwpiau DofE.
- Diffyg arwyddbyst; yn gam neu'n gymwys, nifer o gerddwyr heb eu haddysgu mewn Hawliau Tramwy Cyhoeddus.
- Pobl yn cario pleiars / torri ffensys.
- Tynnu sylw at sut y gall y Llywodraeth (lleol/cenedlaethol) gefnogi cymunedau lleol yn well i facsimeiddio cynhyrchu incwm o dwristiaeth. Ar hyn o bryd mae hyn yn ddiffygiol ac yn hen ffasiwn.

- Sicrhau y gall ymwelwyr gael gafael ar wybodaeth yn hawdd i ychwanegu gwerth at eu hymweliad yn ogystal â throsglwyddo gwybodaeth ddiogelwch berthnasol.
- Fel enghraifft, gallai Llanberis gynnig cymaint mwy i ymwelwyr (ac felly hybu'r economi / swyddi lleol). Mae pobl eisiau dod a gwario eu harian. Edrych tuag at gyrchfan alpaidd ar gyfer cymhellion i ymwelwyr.
- Gallai gweithgareddau anturus (y tu hwnt i gerdded) gael eu hyrwyddo'n well - edrych ar Ardal y Llynnoedd i weld sut y maent hwy'n hyrwyddo hyn.
- Gollwng enw 'Snowdon' a defnyddio Yr Wyddfa.
- Cyflwyno cynllun parcio "preswylwyr" mewn rhannau o gymunedau.
- Amser i feddwl am god ital ar gerddwyr a.y.y.b iw rannu wedyn yn yr economi leol.

**Llanberis**

- Rhoi arweiniad i ddigwyddiadau elusennol/ corfforaethol mawr i leihau'r effaith ar y mynydd a'i gymuned.
- Angen cydlynu'r uchod fel nad yw digwyddiadau yn gwrthdaro.
- Mae gormod o ddigwyddiadau mewn penwythnos yn achosi problemau mawr o ran parcio, sbwriel, mynediad ayb ac mae angen dull gweithredu gwell.
- Mwy o gydlynnu/Cofrestru ar ddigwyddiadau hel arian sy'n gallu bod yn bla!
- Digwyddiadau nad ydynt yn cyfrannu fawr ddim at y gymuned leol.
- A oes modd rheoli faint o deithiau noddedig sy'n defnyddio'r Wyddfa??
- Rheolaeth ar faint o gystadleathau sy'n defnyddio'r Wyddfa.
- Cynllun i ymwelwyr gyfranu at gostau cynnal a chadw'r llwybrau yn wirfoddol.
- Dim traciau beiciau mynydd na gweithgareddau wedi'u trefnu.
- Gormod o bwyslais ar wyliau "gweithgareddau" – sy'n achosi anawsterau i nifer o wasanaethau.
- Gwell gwybodaeth yn y mannau llety am yr Wyddfa – dal i weld pobl, yn arbennig yn y gaeaf yn dringo i'r copa a ddim wedi paratoi'n iawn. Tynnu perchnogion gwesteion a llefydd gwely a brecwast i mewn i ddeallt yr Wyddfa'n well er mwyn iddynt allu pasio'r wybodaeth ymlaen am y nodweddion, rhinweddau, enwau lleodd ac ati.
- Arwyddion wrth ddod i mewn i Lanberis; rwyf wedi gweld nifer bron â methu wrth y troiad am Glyn Rhonwy.
- Gwell rheolaeth o ysbwriel ar y copa ger Hafod Eryri yn ystod tymor y gaeaf. (Arwydd/cydweithio gyda Cymdeithas Eryri).
- Sbwriel – tipio anghyfreithlon ✓✓
- Meddwl nad yw llawer o bobl ar y llwybrau poblogaidd yn ystyried y peryglon – ddim yn trin yr wyddfa fel mynydd mawr all fod yn berygl. Angen mwy o rybuddion?
- Llwybrau mtb wedi'u rheoli – cynyddiadau a llwybrau wedi eu marcio fel yn Blaenau & Marin.
- 150,000 o bobl ar y rheilffordd – hysbysebu ar y trên? Yn yr orsaf, mae swyddfa docynnau gydweithredol ar gyfer pethau eraill i'w gwneud yn Eryri.

### 3.6 Treftadaeth, diwylliant ac iaith

**Beddgelert**

- Nid yw ysgolion lleol yn defnyddio'r adnoddau lleol sydd ar garreg y drws, e.e. addysg awyr agored i bobl ifanc.
- Angen i bob plentyn ysgol lleol gael y cyfle i ddringo'r Wyddfa a dysgu am ei hanes / diwylliant i ymgorffori'r Wyddfa yn y profiad addysgol lleol ✗ Maent yn gwneud hynny'n barod!
- Mae angen dathlu'r iaith Gymraeg a'i hyrwyddo fel atyniad yn hytrach na chael ei hystyried yn broblem.  Byddwch yn falch ohoni a'n hannog i ddefnyddio ychydig o eiriau e.e. Yr Wyddfa!
- Annog/hyrwyddo'r defnydd o enwau lleol ar gyfer lleoedd, nodweddion fel yr hyrwyddir gan brosiect Antur Enwau.
- Annog a hyrwyddo diwylliant lleol a llai o bwyslais ar yr iaith Gymraeg (mae'r iaith yma, ac yn gwneud yn dda!)
- Rhan o'r fargen
- Annog yr iaith Gymraeg. Rwyf yn defnyddio mwy arni ar fy ngwefan er mwyn annog ymwelwyr posibl
- Defnydd cyson o arwyddion a gwybodaeth ddwyieithog - treftadaeth yn cynnwys llwybrau troed a hanes cerdded, dringo yn yr ardal
- Iawn fel y mae hi
- Ie – angen i'r bartneriaeth atgyfnerthu'r ffaith fod treftadaeth, diwylliant ac iaith yn ganolog i'r weledigaeth.

**Waunfawr**

- Mwy o bobl leol yn cael swyddi yn ymwneud â twristiaeth. Da ni yn deall be sydd yma yn medru esbonio pa mor arbennig yw'r lle yr hanes ac ati.
- Heb fywoliaeth teg i ffermwyr yr ardal bydd y diboblogi'r boblogaeth cynhenid yn dirywio ac effaith hyn ar yr iaith Gymraeg yn enfawr.
- Cael gwaith a tâl teg i'r pobl lleol, drwy ganiatau rhywfaint o ddatblygiadau a fyddai'n creu gwaith.
- Braf eto yw gweld popeth yn ddwy ieithog – gwarth nad yw pob sefydliad/ busnes/menter twristiaeth hefyd yn hollol ddwy ieithog.  Pa bwysau/ perswad sydd yn bosib?
- Mae 56% yn drist iawn!! [yn cyfeirio at y canran sy'n defnyddio'r Gymraeg yng Gnwynedd] Angen cadw swyddi yma hefo cyflogau da i bobl Gymraeg.
- 56% yn dangos effait negyddol mae mewnfudwyr yn ei gael ar ein ardal.
- Gollwng enw "Snowdonia" ac " Snowdon" a defnyddio ebw Cymraeg ✓
- Beth os o gwbl yw'r materion, y pryderon yr heriau neu'r cyfleoedd a welwch mewn perthynas â threftadaeth, diwylliant ac iaith ar yr Wyddfa a gerllaw?
- Y tri cyn bwysiced a unrhyw beth. Angen gwarchod enwau lleoedd hanesyddol beth am newid enw 'Mallory's Bar'!  Rhaid rhoi perswad ar fusnesau a safloedd twristiaeth e.e Sygun, Rheilffordd yr Wyddfa i fod yn hollol ddwyieithog.
- Taro cydbwysedd rhwng rhannu ac agor safleoedd i fyny o ran eu hanes ayb. Os yw ffermydd mwytho trefol mor boblogaidd, onid oes cyfle i gael

mynediad i ffermydd mynydd sy'n gweithio, er mwyn i deuluoedd/ ymwelwyr ddysgu mwy amdanynt.

**Llanberis**

- Pwysig bod yna statws yn cael ei roi i ddiwylliant yr Iaith Gymraeg mewn unrhyw ddatblygiadau.
- Sicrhau amlygedd i'r Gymraeg. Nifer o ymwelwyr ddim yn ymwybodol ohoni.
- Rhan o amod cynllunio fod enwau tyddynod ac adeiladau cyffelyb yn glynnu i'r enw Cymraeg gwreiddiol. ✓✓
- Cyfleuon i datblygu mwy ar yr enwau cynhenid – annog arweinwyr ac ati i'w defnyddio a'u ynghanu'n iawn.
- Mae'r dirwedd ei hyn yn oesol – bydd unrhyw beth a ychwanegwn yn tynnu oddi ar hynny.
- Arwyddion/cyhoeddusrwydd ar safle hanesyddol fel Tre'r Ceiri- enghraifft wych neu fferm fynydd.
- App i gyfleu'r nodweddion.
- Mae'r arwyddion a'r wybodaeth ar Ben y Pass yn wych!

**3.7 Economi gwledig**

**Beddgelert**

- Annog mwy o amrywiaeth - cynnwys pobl leol yn y "diwydiant awyr agored". Lleihau dibyniaeth ar gymorthdaliadau amaethyddol. Dylai canlyniadau gael eu mesur mewn gwarchodaeth o'r dirwedd, rheoli cynefin, nid y kg o gig oen a gynhyrchir!!
- Siarad â'r 'Bartneriaeth Awyr Agored' am brosiect i gael mwy o bobl leol i gymryd rhan. Gallai isadeiledd cylchol roi mwy o gyfleoedd busnes.
- Rhaid i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri gael ei ariannu'n briodol. Heb hyn, ni fydd digon o staff yn cael eu cyflogi i gynnal yr ardal i dwristiaid - prif ddiwydiant yr ardal!
- Gweithio gyda Chyngor Gwynedd i gynnal / datblygu / hyrwyddo mynediad awyr agored o gwmpas y Parc Cen, nid dim ond yn y Parc Cen. Diogelu tîm Llwybrau Troed Gwynedd rhag toriadau!
- Mae'n rhaid i APCE newid a symud ymlaen, nid edrych yn ôl drwy'r amser.
- Mae llawer o bobl leol yn ystyried APCE a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol fel 'yr wrthblaid', yn bennaf oherwydd anghydfod cynllunio sy'n ymddangos yn un ochrog iawn.

**Waunfawr**

- Rhaid mynd o ma i ennill cyflog go lew.
- Be ydi'r gwaith sydd yma? Sector cyhoeddus a be arall?
- Rhaid cael mwy o waith i bobl lleol o fewn y Parc er mwyn cael y gorau i'r ardal.
- Siopa pentref i gyd wedi cau e.e Waunfawr.
- Mwy o gefnogaeth i gynlluniau ynni cymunedol – buddiannau lleol nid dim ond perchnogion tir ✓✓✓✓
- Gwell cysylltiadau cludiant i ganiatáu ar gyfer llif pobl leol/ymwelwyr rhwng cymunedau - ✓✓✓

- Trafnidiaeth cyhoeddus gwell, cyson a dibynadwy – Cytuno. ✓
- Cutundebau rheolaeth i ffermwyr sydd yn ?? i'w busnesau a'i tir. Gyda'r newid yng nghyflogaeth pobl leol o ffermio traddodiadol i rolau wedi'u seilio'n fwy ar dwristiaeth, bydd rheoli da ar yr Wyddfa ac o fewn APC yn cynorthwyo cynaliadwyedd ac yn osgoi gwrthdaro gyda'r amgylchedd yn ogystal â helpu i amddiffyn y dreftadaeth.
- Canolfan ymwelwyr gan PCE yn Aberdyfi ond nid yn Llanberis.

**Llanberis**
- Bod cynlluniau trydan dwr ac ati yn cael eu rheoli gan gymunedau lleol - angen arweiniad / cefnogaeth i alluogi hyn i ddigwydd. Cytuno ✓
- Diffyg swyddi llawn amser i drigolion lleol, yn y diwydiant twristiaeth.
- Rhaid cofio bod prif ddefnydd o'r tir yn amaethyddiaeth.
- Cofio mai'r prif ddefnydd tir yw ffermio.
- Mwy o annog ymwelwyr i brynu cynnyrch lleol. Dylai'r caffi ar y copa ac yn y gwaelod werthu crefftau / cynnyrch lleol yn unig.

**3.8 Unrhyw fater arall**

**Beddgelert**
- Dim Cwn o gwbl – hambygio defail a lladd.
- Bobl i fwcio I ddod i fyny'r Wyddfa – y mynydd yn rhy llawn ar adegau.
- Gorddefnydd gan ddigwyddiadau 'her' heb hyfforddiant/arweiniad
- Gorddefnydd gan ddigwyddiadau her✓
- Parcio– yn enwedig Pass Llanberis.
- Gorbori
- Ffensys gyda weiren bigog
- Llwybrau adeiledig wedi hanner eu gorffen/erydu
- Bagiau cerrig yn creu sbwriel ar y mynydd ✓
- Mae'n rhaid i Awdurdod y Parc gadw rheolaeth gynllunio fel arall ni fydd yn cael ei gynnal a'i gadw i safon briodol i sicrhau bod y Diwydiant Twristiaeth yn parhau i ffynnu.
- Rhaid i'r Parc lacio cynllunio i helpu annog datblygu
- Dylai ceisiadau cynllunio gael eu trin gyda chysondeb nid newidiadau gan ddibynnu ar y swyddog cynllunio!
- Trwy gyd weithio a cynllunio gofalus gellir ateb gofynio 2-6 ar y cyd.
- Gwneud i gyfranogwyr y Tri Chopa dalu am y fraint
- Hafod Eryri – Rheolaeth Rheilffordd yr Wyddfa yn wasanaeth gwael ar brydiau!
- Efallai edrych ar y dimensiwn ehangach. Sefydlu cysylltiadau gyda grwpiau eraill tebyg mewn rhannau eraill o'r DU ac Ewrop.

**Waunfawr**
- Diolch yn fawr – gobeitho y bydd y sgwrs yn parhau!
- Diolch yn fawr iawn.
- Yn dda cael yr ymgynghoriad hwn - seminar
- Rhaid diffinio heb oedi yr union ardal sydd dan sylw yma.
- Pwy sydd ar y LAF? A ydynt yn cynrychioli bob defnyddiwr?

- Nid oes gan ganran uchel o bobl sy’n cerdded i fyny'r Wyddfa fapiau, nid oes ganddynt y ddealltwriaeth, y profiad o fynyddoedd – pwy sydd 'yn eu cynrychioli' nhw?
- Faint o blant ysgol lleol sy’n gwybod am eu llwybrau troed lleol, a allai roi cyfarwyddyd i ymwelwyr.  Yn Llanfairfechan ddoe, gofynnodd 2 ferch 14-15 oed i mi "Lle’r yda ni, rydym ar goll?" Roeddent ar ben uchaf y pentref tua 1/2 milltir o’u cartrefi; nid oeddynt erioed wedi bod am dro uwchben y pentref ar lwybr!! A yw plant yn y pentrefi o amgylch yr Wyddfa rywfaint gwell yn hyn o beth?
- Os yw’r ardal yn cael ei sefydlu fel 'partneriaeth', efallai y gellid sefydlu grŵp aelodaeth o gynhyrchwyr (bwyd/ cynnyrch) fel 'PGI' yr un fath â ‘Chig Oen Cymreig' efallai drwy ymestyn yr ardal i gynnwys mwy o fusnesau (h.y. nwyddau a wnaed â llaw, caffi/ siopau arbenigol ayb)
- Byddai’n wych cael y wybodaeth ddiweddaraf a medru codi cwestiynau a phryderon - cael gwybod mwy, e.e. a oes gormod o stoc ar y llethrau? A allai gwartheg reoli'r rhedyn yn hytrach na defaid yn pori? Pam nad yw’r bysiau yn troi i fyny, ac yn y blaen!!
- Mae nifer o lwybrau ceffyl ar yr Wyddfa ond oherwydd natur cadwraeth mae’r llwybrau hyn wedi dod yn anodd neu’n beryglus i farchogion - ni ddylai cerrig serth fod yn nodwedd o lwybr ceffylau.  Mae llawer o bobl sy'n marchogaeth yn dod i mewn i'r categori "llai abl" ac felly dylai llwybrau ceffylau gydymffurfio â DDE.

**Llanberis**

- Mae’n gwestiwn o ‘barch’ – annog parch at y lle ac at y ffordd o fyw.
- Wardeniaid yn gallu dirwyo taflu sbwriel pan fo’n ymarferol
- Wardeiniaid Sbwriel ASB i gael y grym i ddirwyo/ adrodd am dipio anghyfreithlon - dirwy anghyfrifol/ achub person diangen. Gweithwyr gwneud iawn â’r gymuned yn glanhau llwybrau.
- Wardeniaid yn gosbol i PPI os y gwelant bobl yn taflu sbwriel. Angen ei blismona yn gyfrifol
- Peidio newid, ei adael fel y mae
- Cynhwysiant Ieuenctid – grymuso – hyfforddiant – gyrfaoedd/ tai cymdeithasol fforddiadwy
- Cyfyngu ar dai/ ail gartrefi.
- Sicrhau fod trefnwyr digwyddiadau yn fodelau rôl o ran defnydd cyfrifol o Eryri e.e. mae paentio saethau cyfeirio mor annerbyniol â gollwng gwastraff bioraddadwy.
- Gofyn i’r holl digwyddiadau beicio gofrestru er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn cael eu trin yn iawn!
- Nawdd corfforaethol i brosiectau Parc!?
- Bagiau baw cwn yn cael eu taflu.
- Rhybudd ar gychwyn Llwybr Llanberis pan fo amodau’r Gaeaf yn ddifrifol ac angen gwisgo cramponau “Gwyliwch rhag llithro i farwolaeth”!
- Mae angen llawer mwy o ymgynghoriad gyda'r perchnogion tir a'r porwyr sydd yn cael eu heffeithio gan y bartneriaeth ac unrhyw gynllun a all ddatblygu o hyn.  Dylai yr unigolion yma gael gwahoddiad i fod yn rhan o'r grwp. Heb yr unigolion teuluoedd yma ni fyddai unrhyw un or rhannau

uchod yn bodoli gan mae amaeth sydd wedi llunio ac yn parhau i lunio a chynnal y tirlun yn ei harddwch presenol.

- Angen gwrthsefyll unrhyw 'reoli' a 'datblygiad' gan ddatblygwyr tramor mawr.  Peidiwch â gor-ecsbloetio’r rhyddid i grwydro yn yr ardal – cofiwch am y rhai sy'n gyfrifol am y tir. Cyfyngwch ar weithgareddau di-baid oherwydd mae’r gorbwyslais hwn yn amharu ar y lleoliad, ac mae’r heddwch a’r llonyddwch sydd eisoes yn yr ardal yn cael ei werthfawrogi gan bawb. Mae llygredd sŵn yn broblem gynyddol o ran hofrenyddion (ar wahân i'r rhai achub). Mae twristiaeth gweithgareddau yn rhoi straen ar wasanaethau lleol.

## 4. Adborth ychwanegol o’r holiaduron


Roedd llawer o gwestiynau yn yr holiadur yn adlewyrchu'r rhai oedd ar y paneli arddangos, ac mae’r ymatebion iddynt wedi cael eu cynnwys yn yr adrannau priodol uchod.

Mae’r ymatebion eraill i’r holiaduron yn cael eu hatgynhyrchu isod.

**4.1 Ynglŷn â’r cyfranogwyr**

Mynychwyd y digwyddiadau gan 29 o bobl. Roedd nifer ohonynt yng nghwmni aelod arall o'u teulu nad oeddynt wedi rhoi manylion cyswllt ychwanegol, ond ychwanegodd nifer o’r rhain eu barn a'u syniadau. Rydym yn amcangyfrif bod y nifer y bobl a gymerodd ran yn y digwyddiad rhwng deugain a hanner cant.

**4.2 Sut oedd cyfranogwyr yn cael gwybod am y digwyddiad(au)?**




Derbyniodd nifer o gyfranogwyr galw draw wahoddiad yn uniongyrchol gan gan aelodau o'r bartneriaeth, ond hysbyswyd y rhan fwyaf o'r digwyddiad drwy ffrindiau neu gyfryngau cymdeithasol, yn enwedig facebook & twitter.

**4.3 Pa ddiddordeb(au) neu bryder(on) a sbardunodd bresenoldeb y cyfranogwyr?**


- Nifer ymwelwyr a pharcio ceir a materion sbwriel
- Mae’r Wyddfa yn fy ngardd gefn
- Mynediad, gwarchod tirwedd.
- Ar-lein – Twitter
- Eisiau gweld syniadau pobl eraill hefyd! Hyd yn oed er ein bod yn fasnachol rydym yn addysgu ein hamgylchedd ayb Ddim yn hoffi gweithredwyr mawr yn mynd â grwpiau enfawr i fyny mynyddoedd – niweidio’r ardal
- defnyddiwr/cerddwr/dringwr/tywyswr/perchennog busnes
- Gweithio ar y mynydd yn gwarchod/ rheoli natur.
- Tirwedd, yr amgylchedd, mynediad, llwybrau

- Pryderon cyffredinol
- Pryder parhaus am yr ardal – yn caru'r ardal lle rwyf wedi byw ers dros 40 mlynedd
- Byw a ffermio ar yr Wyddfa. Credu'n angerddol ein bod angen newid
- Sut ellir cynnwys y pwysau sylweddol sy'n ?... i ?... tirwedd amlswyddogaethol yn ardal yr Wyddfa
- Pryderu am gerddwyr yn mynd o bentref Beddgelert i gopa'r Wyddfa. Mae llawer mwy o drespasu ar fy nhir oherwydd hyn. Cyffredinoll
- Materion parcio/cludiant
- Diddordeb cyffredinol yn PCE, diddordeb arbennig mewn bioamrywiaeth, cadwraeth, cerddwr rheolaidd yn y PC eisiau llwybrau lefel fwy isel / canol.
- Materion rheoli tir. Gatiau Agored, cŵn yn amharu ar dda byw, taflu sbwriel a pharcio ceir mewn pyrth
- Swnio'n fenter wych
- Rwyf yn gerddwr rheolaidd yn yr ardal. Rwyf yn aelod o Gymdeithas Eryri. Rwy'n mwynhau marchogaeth ceffylau a byddwn yn croesawu mwy o gyfle i fwynhau hyn ar lwybrau ceffyl yr Wyddfa.
- Rheoli Cefn Gwlad - dylanwad llywodraeth leol ar ymwelwyr
- Wedi treulio oes yn byw yng ngolwg yr Wyddfa yn teithio drosti ac yn dysgu llu o ddisgyblion uwchradd am odidogrwydd y mynydd arbennig yma.
- Diddordeb ym mhob agwedd sy'n ymwneud a'r ardal a'r gymuned yn y lle arbennig yma.
- Person lleol. Diddordeb yn y tirwedd a'r diwylliant lleol. Gwirfoddoli fel warden ar yr wyddfa. Hoffi cerdded mynyddoedd. Local person.
- Rwyf yn pryderu am y nifer o ymwelwyr ar yr Wyddfa ar ddiwrnodau prysur yn yr Haf yn enwedig gan nad yw'r rhan fwyaf ohonynt yn cyfrannu tuag at y gymuned leol. Dylid cyflwyno system o godi tâl.
- Gorfodaeth – tipio anghyfreithlon
- Cyflwyniad o'n cynefin, sef ein treftadaeth naturiol a Chymreig.

**4.4 Perthynas y cyfranogwyr gydag ardal yr Wyddfa?**

- Dywedodd **20** o gyfranogwyr eu bod yn **byw o fewn 5 milltir i gopa'r Wyddfa.**
- Mae **11** o gyfranogwyr yn **gweithio o fewn 5 milltir i gopa'r Wyddfa,** tra bod **13** pellach yn gweithio yn **ardal ehangach y Parc Cenedlaethol.**
- Disgrifodd **9** ohonynt eu hunain fel rhywun â **diddordeb gwaith/ proffesiynol** yn y pwnc
- Roedd gan **1** cyfranogydd dŷ gwyliau yn yr ardal.

### 4.5 Pa mor bryderus ydych chi ynghylch sut y mae’r mynydd yn cael ei reoli heddiw i sicrhau manteision cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd?





**Sylwadau**

- Dim digon o adnoddau. Y teimlad fod gweithgareddau hamdden yn cael ei edrych ar fel bod yn eilradd i reolaeth tir neu amaeth. Mae hon yn fenter wych i ddechrau tynnu pethau at ei gilydd ac edrych i'r dyfodol
- Mae angen i ni edrych ar ôl yr Wyddfa ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol a bywyd gwyllt
- Heb reolaeth dda o'r mynydd byddai'r amgylchedd yn cael ei dinistrio
- Diffyg adnoddau i'w reoli yn sgil cynnydd defnydd gan y cyhoedd.
- Gwaith gwych gan y tîm APCE.  Mae arnynt angen adnoddau digonol, cefnogaeth gan Gyngor Gwynedd. Gwell cysylltiadau trafnidiaeth ar gyfer ymwelwyr
- Cyfleusterau cludiant ar gyfer ymwelwyr.  Mwy o lwybrau llinol
- Angen parhau â holl waith da y 30 mlynedd diwethaf
- Rhaid cydbwyso’r Economaidd – hyn yn helpu bob gweithgaredd arall
- Pwysig iawn bod y rhain yn fuddiannau i'r boblogaeth leol a bod ymwelwyr yn gwerthfawrogi pa mor arbennig yw’r mynydd hwn.
- Mae angen gwell parcio a gwell gwybodaeth i gerddwyr. Mae angen gwell rheolaeth o ddigwyddiadau a drefnir er wyn atal gorddefnyddio llwybrau troed ac erydiad
- Cofiaf yr hyn oedd i'w gael ar yr Wyddfa yng nghanol y ganrif ddiwethaf a'r galw am fwy o waith adferol.
- Yn bryderus am ei fod mor bwysig i gael y rheolaeth cystal a bydd yn bosib i ddiogelu'r man pwysig yma.  Gwaith da yn cael ei wneud ond bob amser lle i wella.
- Credaf fod y mynydd gyda'i holl ymwelwyr yn cael ei reoli'n dda.  Mae'r nifer o bobl sy'n ei ddringo yn fy mhryderu a'r nifer sydd yn ei ddefnyddio fel her.
- Ymddengys bod y system bresennol o reoli’r mynydd yn gweithio’n dda o ystyried y dirwedd. Eisiau rhoi mwy o sylw i gynnal a chadw llwybrau.

- Cofnod o reolaeth ar amaeth dim digon ar y twristiaid a'r cerddwyr.
- Prif beth i mi yw cyn lleied o bobl/ plant lleol sydd mewn gwirionedd yn mynd i fyny'r Wyddfa! Sut ellir defnyddio'r Wyddfa i gadw ymwelwyr yn Llanberis.
- Mae'r ardal yn eiconig oherwydd ei bod yn parhau i fod heb ei gorddatblygu, a hir y parhaed felly.


**4.6 Pa mor gefnogol ydych chi o wneud rhywbeth i wella rheolaeth yr amgylchedd mynyddig?**




- Ond mae'n holl bwysig cael cytundeb gan holl rhanddaliadwyr gan gynnwys defnyddwyr adloniant a hamdden yn ogystal a buddianau masnachol.
- Dibynnu ar sut mae hyn yn cael ei wneud ac a yw'r rhai sydd â chyfrifoldebau rheoleiddio dim ond yn symud y cyfrifoldeb hwn i eraill
- Mae'r ardal yn cael ei defnyddio mor dda ac mae'n bwysig i les ariannol yr ardal. Twristiaeth yw'r prif ddiwydiant felly mae rheoli'r Wyddfa yn hanfodol bwysig.
- Rheolaeth?
- Mae'n rhaid i PCE a'r Bartneriaeth fod ag adnoddau i barhau i reoli'r amgylchedd a'r dirwedd hon o werth uchel iawn fel nad yw'n dirywio.
- Er mwyn ymgorffori rhaglen addysgol i gael ysgolion allan, dysgu am yr ardal, yr amgylchedd hanes.
- Dibynnu beth mae'r rheolaeth hon yn ei chynnwys.
- Yn arbenning yn yr ardal hon. Mae'r wyddfa yn 'bot mel' gyda rheilffordd a chaffi ar y copa uchaf yng Nghymru a Lloegr. Oherwydd hyn mae'n hanfodol i weithredu'n briodol ac mewn da bryd.
- Gwaith anodd yw darganfod y dulliau call, gorau i warchod y lle yma. Mae'n bwysig cael pethau yn iawn trwy roi llais i ystod eang o safbwyntiau.
- Mae'n le gwaith i ffarmwr, yn fan o ddiddordeb arbenning ar lefel Brydeinig ac Ewropeaidd or ran bywyd gwyllt a daeareg a thirwedd yn lle mae 500,000 yn ymweld ag o - pwysig ei reoli'n dda.
- Mae'r mynydd wedi ei reoli yn effeithiol gan amaethwyr ers canrifoedd, heb amaeth a phori ni fyddai mynediad i'r mynydd yn bosibl. Yr elfen sydd

angen ei reoli yn llawer llymach yw y twristiaid a'r cerddwyr sydd yn camddefnyddio'r adnoddau syd yn eu denu yma sydd wedi ei luno gan y diwydiant amaeth.
- Dylai fod ein prif flaenoriaeth
- Ei atyniad yw ei stad naturiol. Ni ddylid ei dinistrio.Y brif flaenoriaeth yw amaethyddiaeth, ac nid twristiaeth a hamdden.

**4.7 Pa mor ddefnyddiol fu'r digwyddiad i chi o ran esbonio nodau'r Bartneriaeth?**





- A bit short notice
- Cyffrous iawn gweld y broses yn cychwyn.
- Gwybodaeth dda ar y poster. Diddorol gweld y sylwadau.
- Mae'n ddechreuad da iawn, pobl yn gwerthfawrogi'r ffaith ei bod yn broses ymgysylltu
- An electronic summary with the invitation would have prompted ideas.
- Dylai pobl sy'n byw, yn gweithio ac yn defnyddio'r Parc Cenedlaethol fod yn ymwybodol o waith y Bartneriaeth
- Cwestiynau dryslyd/annelwig
- Need much clearer details about the area being considered that the partnership has in mind as a result of the work.
- Mae'r bartneriaeth yn tueddu i ffafrio ecsbloetio'r ardal.  Nid oes digon o gynrychiolaeth leol ac mae 'datblygwyr' yn ymwthio i'r rheolaeth.

**4.8 Beth [os o gwbl] yr hoffech chi wybod mwy amdano, neu i gael ei esbonio'n gliriach, yn ymwneud â'r gwaith y mae'r bartneriaeth yn ei wneud ac yn anelu at ei wneud yn y dyfodol?**
- Mwy o fewn bwn gan fudiadau hamdden ac adloniant.
- Hysbysu pobl leol er mwyn sicrhau yr ystyrir yr holl ddefnyddwyr. Gwneud sylwadau i'r Aelodau Cynulliad lleol - Llywodraeth Cymru – i gynnal y pwysau?
- Cyfranogiad cynllunio busnesau yn yr ardal.  Ni ofynnwyd i'r cwmni gosod tai mwyaf hyd yn oed - Dioni Cottages
- Rwy'n credu ei fod wedi bod yn llawer gormod o wybodaeth, yn gallu dylanwadu ar farn

- Sut mae'r gyllideb i wireddu unrhyw amcan yn cael ei sicrhau?
- Byddai'n ddal cael gwybodaeth am weithgareddau 'r Bartneriaeth ar y we mewn man hygyrch (efallai ei fod yno'n barod).
- Diweddariad o weithgareddau'r bartneriaeth yn y wasg leol.
- Ai'r Wyddfa yn unig yw hyn? Yr Wyddfa a'r ardal gyfagos, Parc Cenedlaethol Eryri?
- Ychydig iawn a ddywedwyd am natur y 'datblygiad' arfaethedig gan y bartneriaeth – angen manylion.

**4.9 Pa mor ddefnyddiol oedd y digwyddiad i'ch galluogi i gyfrannu eich syniadau a'ch pryderon?**
Pa mor ddefnyddiol oedd y digwyddiad i'ch galluogi i gyfrannu eich syniadau a'ch pryderon at y rhestr o faterion y mae pobl leol, ymwelwyr ac eraill wedi eu nodi fel rhai pwysig i wella rheolaeth y mynydd a chyfrannu at amcanion Partneriaeth yr Wyddfa?




- Mae hwn yn gyflwyniad da i unigolion. Mae'n eithaf anodd cyfrannu syniadau newydd wrth ddod ato'n 'oer' ond yn dal yn ddefnyddiol
- Rydych yn dda wrth y tair brif gymuned o amgylch Yr Wyddfa.
- Roedd llawer o wybodaeth i'w chymryd i mewn, gallai llawer o'r wybodaeth fod wedi cael ei chyhoeddi ar-lein ymlaen llaw er mwyn rhoi cyfle i ymchwilio a darparu mwy o amser i roi ymateb.
- Anodd weithiau yw egluro pryderon yn gryno ac effeithiol yn ysgrifenedig yn ystod diwgyddiad fel hwn. Anodd hefyd rhoid barn hanner ffordd drwy'r broses / ymgyrch.
- Rwyf yn falch iawn o'r cyfle i fynegi fy marn ar fater mor bwysig.
- Ar hyn o bryd mae'r cynllyn ag uchelgais y grwp mor anelwig, mae'n anodd iawn rhoi sylwadau pendant.
- A fydd unrhyw un yn gwrando? A yw'r symudiad hwn i adael i 'ddatblygwyr' fod yn rhan o'r rheolaeth a ddyluniwyd i ganiatáu i 'estron' fuddsoddi mewn newidiadau newydd andwyol nad oes mo'u hangen?
- 15 wyneb hapus.
- 1 wyneb trist
- Rhoi cyfle i bawb leisio eu barn ar faterion

- Gwybodaeth dda. Mae’n dda cael mynegi barn ar y defnydd o’r Wyddfa ac yn bwysig iawn cynyddu ymwneud pobl leol mewn datblygiadau yn y dyfodol.

## ATODIAD: Adborth ychwanegol o ffynonellau eraill

**Trydar**

Fiona @FionaJDavies 1h1 hour ago
@WardenEryri we really need to come up with an idea to get people to close gates after them
0 retweets 1 favourite
Reply Retweet Favorited 1

Fiona @FionaJDavies 1h1 hour ago
@WardenEryri we are lucky we live (farm/work) in such an amazing place, it also means we are probably in the highest #human traffic area..

Fiona @FionaJDavies 53m53 minutes ago
@WardenEryri which means a lot of gates left open, especially #Maesgwm propped with a stone! Annoying as new #Herdwicks have now escaped!

Fiona @FionaJDavies
PGI, dim just efo cig, sa lot o petha gallu dod I mewn...gwaith coed, bwyd, gwin, etc... Lot yn defnyddio snowdonia yn enw products nhw, ella fysa na lot o diddordeb :) ec.europa.eu/agriculture/quality/schemes/index_en.htm

**Drwy Ffon**

"Need toilets on the Llanberis side (6 weeks of the year at peak time)"

**Drwy E-bost**

Dear Helen,

I have seen your website on "Snowdon Partnership" and so I would like to give you my views on the topic. Below is an e-mail which I have sent to the BMC.

In summary, I think that the National Park Authority is doing a great job, and there are no problems to be solved. I am against such steps as putting up signposts (large engraved slate blocks) as have appeared all over Snowdon over the last year. These detract from the wild character of the mountain.

Regards,

Peter Friend

Dear Helen,

I note there is at present there is a consultation exercise on maters relating to Snowdon being organised by the Park authorities, including the provision of facilities for visitors.

Quite clearly Snowdon is a huge draw to people visiting the area, bringing in a huge amount of income for both the residents and the authorities. With every encouragement that they get to visit the area from a number of bodies, there is clearly a problem if they have travelled by car, in what they do with it when they arrive. The provision for car parking space, particularly in the Pen y Pass / Pen y Gwryd areas, is inadequate for the numbers that visit. Many visitors in their attempt to find car parking space are fined by Gwynedd County Council when they park on the verges of the A4086 or the verge of the Beddgelert road, hardly providing them with a welcome and certainly not a incentive to return.

It does appear that Conwy Country Borough Council are more understanding of the difficulties, as they do not have their section of the road patrolled by an enforcement officer.

Do you and your fellow officers agree that there is a car parking problem in the area mentioned? If so I wonder if there are any plans to resolve it?

I do also think that there should be a more prominent sign at the Pen y Gwryd, indicating the start of the footpath to the Pen y Pass; ideally there would be a link to the excellent footpath that has now been created, from the road junction at the Gwryd.

I would be very happy to discuss these two matters with you on some occasion, if you thought there would be any value in meeting,

Best wishes

Harvey Lloyd

Diolch am y wybodaeth isod.
Os na allaf fynd wnei di plis ddweud wrth y bobl 'iawn' faint mor siomedig ydwi i yn bersonol ac fel Clwb Cerdded lleol nad oes nwyddau cymraeg yn y siop yn y Hafod Eryri. 'Rydym yno'n flynyddol ac yn dweud ur un peth bob blwyddyn.Y ddadl ydi nad Y Parc sy'n rhedeg y caffi a'r trên ond faint o arian cyhoeddus sydd wedi cael ei roi iddynt dros y blynyddoedd a chredaf ei fod yn ddyletswydd iddynt fod yn ddwyieithog.

Hwyl Ann

**Drwy Lythyr**

*Gan:*
*Dafydd Morris*

*Gweler y tudalen nesaf*

Yr Wyddfa – Dweud Eich Dweud

Os yw'r pamphled a gyfeirir ati uchod yn cynwys cael syniadau a sylwadau gwir berchnogion yr Wyddfa mae fy ymateb fel y ganlyn.

Mae y cyfri o bobl a chŵn, sydd yn dod ar y Wyddfa yn ddyddiol, yn hollol afresymol ac yn wallgofrwydd llwyr ar ran y rhai sydd yn honi eu bod yn warchodwyr, gwarchod pwy a beth? Ar wahan i swyddi segur moethus hwy ei hunan.

Un Wyddfa sydd yn bod, ac mae i'r Wyddfa honno linell derfyn bendant, mae'n rhaid dangos terfynau'r Wyddfa yn y man cywir ar fap, mae'r pwynt yma yn un hynod bwysig oherwydd, er engraifft, ar wneud ymchwiliad ac asesiad o'r llanast difreifol, mae gorbwysau ymwelwyr yn ei achosi ar y Wyddfa, byddai'r cyfri o bobol arwyddir drostynt ar ddiwrnod arbennig yn llawer mwy derbyniol, trwy ddweud fod yr Wyddfa yn mesur 200 mil o erwau, pan mewn gwirionedd mae ond 100 mil fyddai'r mesur cywir. Mae camarwain ein gilydd yn gyfrwng i waethygu'r sefyllfa'n mhellach. Fellu os gwelwch yn dda, dorwch y linell derfyn yn y man priodol i ddangos yr Wyddfa.

Mae'r cyfri afresymol o bobol yn erydu y llwybrau a'r tirwedd, nid palmantu'r llwybrau a cherig yw'r ateb cywir ychwaith, oherwydd mae'r traed blinedig yn dewis cerdded ar y tir drachefn, ac o ganlyniad mae'r tir yn dioddef eto eto ac eto, mae y gwaith o balmantu llwybr Llanberis sydd yn rhedeg drost ein tir, wedi achosi erydu difreifol i'r tirwedd.

Mae yr hyn sydd yn cymeryd lle ar y Wyddfa yn destun gofid mawr ir teulu, does yna yr un swyddog na chorff nac awdurdod yn pryderu am gylfwr y mynydd nac am drafferthion a cholllediod y perchenogion sydd yn ceisio gwneud bywoliaeth ynghanol y llanast.

Meddyliais lawer am gynllun i warchod a gwella gwyneb Llanberis y Wyddfa, y cynllun a benderfynwyd arno oedd gwerthu'r mynydd

wrth yr acer, yn amodol ar y ffaith mae llus-dyfiant, cadwraeth a bywyd gwyllt fyddai cynyrch y fenter, costiodd y cynllun lawer o amser ac arian.

Cefais bosteri wedi ei gwneud yn bwrpasol i'r fenter ac roedd diddordeb yn dechrau ymddangos. Yna cysylltais a swyddog o swyddfa Parc Eryri i ofyn am ganiatad i rhoi postar ar giatiau neu ffens ger y mynediad i'r Wyddfa mewn pedwar safle.

Ymateb y swyddog cyntaf oedd, am i mi alw person arall, gan roddi i mi rhif ei ffôn, galwais y rhif yma, ond yr un ymateb a gefais sef am i mi alw rhif arall, ceisiais wneud hynny, ond yr ateb y tro hwn oedd, na fyddai y person yma ar gael tan y diwrnod dilynol, galwais y rhif yma drachefn y diwrnod dilynol ond yr ymateb a gefais y tro hwn oedd, fod y person ar wythnos o wyliau.

O sylweddoli fod y tymor gwyliau bron ar ben, penderfynais i roddi'r pedwar postar yma-ac-acw, roedd hyn ar Ddydd Sadwrn, erbyn y nos Lun dilynol roedd tri o'r posteri wedi eu dwyn.

Ar fy ymweliad a Tesco Caernarfon ar fin nos, diwedd yr wythnos hono, gwelais Brif Wreithredwr Parc Eryri yn sefyll ger stondin talu am nwyddau, gofynais iddo, a wyddai pwy oedd wedi dwyn fy mhosteri, er na wyddai roedd ôn gwybod fod tri o'r pedwar postar yn Pen Pass Nant Peris, au bod ar gael o'i nhôl, gofynodd a hoffwn dderbyn llythur i gadarnhau y wybodaeth, dywedais y buaswn.

Cyfri o Gŵn ar y Wyddfa'n Ddyddiol. Fyddai'n ddim syndod gwybod fod yna fwy o gyfri o gŵn nac o bobl yn dod ir Wyddfa bellach. Mae cwn yn aflonyddu ar ddefaid â gwartheg ar brydiau, maent yn erlid a lladd defaid ac wyn. Mae baw cŵn yn afiach i bobl, plant ac anifeiliaid. Gyda chymaint o bwylais o bob cyfeiriad ar iechyd anifeiliad â glendid bwyd, mae'n rhaid atal cŵn rhag dod i'r mynydd yn gyfan-gwbl, a hynnu ar unwaith. Mae gennyf dystiolaeth o fuwch o eiddo'r teulu yn ymosod ar gi, ac roedd hyn yn digwydd yn aml yn

rhy aml a dweud y gwir, ac o ganlyniad penderfynwyd gwerthu'r gwartheg er fod gorfod gwerthu'r gwartheg yn golled ac yn anheg, oherwydd ein heiddo ni yw y tir. Ond mae'n amhosib cael y gore ohono. Gobeithio fod pawb yn derbyn fod yn rhaid wrth drefn a pharatoiadau mewn busnes. Trist dweud fod y ddwy egwyddor uchod wedi e'u cymeryd a'i diddymu o afael yr unig bobl sydd yn ddibynol ar arddel trefn.

Yr egwyddor gyntaf yn fy marn i yw gwarchod Perchennog y tir a'i fywoliaeth, y fo ddylai gael dweud sut mae ei eiddo yn cael ei drin ai drafod, chawn'i byth barch a threfn tra bydd yr ymwelwyr yn cael eu cyflyru i feddwl mae "Parc Cenedlaethol" yw y tir, sydd yn awgrymu, mae Cae chwarae yw ein heiddo.

Mae llawer o fewnfudwyr i gefn gwlad wedi cael caniatad i wneud yr hen tudai yn dai gwyliau, ac o ganlyniad yn gallu tynnu mwy o arian o'r Wyddfa na'r hyn mae'r perchennog yn ei dderbyn, a hynny heb orfod talu yr un geiniog at y gwaith o gynal a chadw.

Mae y deddf, yr hawl i grwydro yn rhoi hawl i pobl i ddringo'n ogystal. Mae Cwm Arddu yn fy meddiant ac yn mesur cant a deg o erwau gan gynwys Clogwyn Du'r Arddu, a'r dringfeydd godidog, mae yna ugeiniau o bobl yn gallu elwa'n ariannol o'r Cwm, y cyfan a gaf i yw cardod am ei warchod, er hynny gwaethygu mae cyflwr y Cwm a'i gynwys, oherwydd mae rhoi arian am warchod a chefnogi ei gamddefnyddio ar yr un pryd yn gamddefnydd o arian y trethdalwyr. Rwyf ar deall fod yna rai sydd a chaniatad i osod i ymwelwyr, yn cynwys ein Cwm a Chlogwyn Arddu yn eu hysbyseb am ymwelwyr.

Amser maith yn ol cysylltais a phob aelod o'r Cynulliad, gan ddatgan fy mhryder, gan ofyn y cwestiwn a oedd y Parc yn gallu dylanwadu ar ddyfodol unigolion o ffermwyr yn Eryri oherwydd, er fod ein diweddar fab Geraint yn lafurwr arbennig, roedd yn edrych am rhywbeth ysgafnach i wneud pan ddaeth yr aflwydd Leukemia i'w ran, cafodd dau o'i syniadau eu gwrthod, er i'r ddau fod wedi rhoi

blaenoriaeth i'r amgylchedd, trefn a chadwriaeth. A oedd yn awgrymu i mi fod y Parc yn gallu dewis a didol amaethwyr i Eryri.

Erbyn hyn mai'n unfedawrarddeg ar sefyllfa'r amgylchedd trafferthion a budreddi cŵn a chyflwr y tirwedd. Mae'n rhaid gweithredu a gwarchod yn ddiymdroi.

O sefyll ar ben yr Wyddfa gan droi yn eich unfan mae y tirwedd am oddeutu hanner milltir o tanoch yn debycach i chwarael nac i dir amaethyddol.

## Fy Syniadau

Y  Pwynt cyntaf, rhoid plât digon eglur ger pob mynedfa i'r mynydd i ddweud pwy yw Perchennog y tir cysylltiedig. Byddai gan y cyhoedd lawer mwy o barch i'r tir dybiwn i.

Byddai'n haws rheoli'r cyfri ar drefn, pe byddai'n rhaid ir ymwelwyr fwcio ymlaen llaw. Banio cŵn yn gyfangwbwl, y dewis arall fyddai ffensio oboptu i'r llwybr.

Mae'n rhaid gweithredu yn awr, oherwydd mae ein bywoliaeth yn y fantol, mai'n amlwg mae ymwelwyr yw blaenoriaeth y Cynulliad, oherwydd Cymru yw'r unig wlad o fewn yr EU sydd wedi amddifadu ffermwyr o'r taliad tir mynydd.

Mae'n wir i daliadau gwahanol gael ei cynig ond yn amlwg taliadau i wneud y fferm yn ddeiniadol i ddenu mwy o ymwelwyr ydynt. Siom fawr i mi a llawer o bobl eraill fod y Cynulliad ar Parc wedi methu gwarchod yr ucheldir ai thrigolion.

Mae'r Blaid Lafur wedi rhoi hawl i grwydro drost yr ucheldir gan gynwys y tiroedd preifet flynyddoedd yn ol bellach. Mae'r Blaid Lafur yn trafod dwyn tiroedd gwaelod gwlad os cant eu hethol mis Mai, dim ond gobeithio fod digon o egwyddor yn bobl Cymru i beidio cefnogi lladrad.

Dwyn yr Wyddfa Drachefn.

O Gymru fach fy annwyl wlad,
a wyddost ti fod Cynllun brad,
a'r droed er ceisio dwyn drachefn,
ein haberth oes drwy ddrws y cefn.

Dafydd a'r Teulu
Hafodty
Cwm Brwynog
Llanberis.

*Gan:*
*John Grisdale*

Nodiadau Ychwanegol – John Grisdale

Partneriaeth yr Wyddfa

Atgoffa ……………

- Sefyllfa presennol cylflwr yr Wyddfa yn atgoffa rhywun o'r sefyllfa y 70au'r ganrif ddiwethaf. Sicrhawyd cyllideb sylweddol i adfer llwybrau a diogelu amgylchedd fregus hynnod arbennig.
- Er nad mor ddifrifol a'r cyfnod hwnns mae perygl fod hanes yn ailadrodd, yn arbennig wrth weld y cynnydd aruthrol yn y defnyddwyr o'r mynydd. (yn arbenning felly gyda'r beicwyr).

Cyllid
- Diwedd y gan yw'r geiniog. Nid mor hawdd i'w gael y dyddiau hyn!! Rhaid felly cydweithio a cyd-gyllido, gan sicrhau fod partneriaeth yn fodlon ysgwyddo cyfrifoldeb i wario ar waith y Partneriaeth. Heb adnabod cyullid i wireddu unrhyw amcan - ofer fydd unrhyw drafodaeth a chynllunio heb gyllid o pa bynnag ffynhonell – gorau oll os o bwrs canol - i ddiogelu ardal yr Wyddfa.

Amgylchedd Unigryw
- Dim amheuaeth am werth naturiol y mynydd a'r angen i'w ddiogelu ar bob cyfrif. Mae'n dasg anodd i wireddu hyn mewn ardal ble mae asgwrn cefn yr economi yw amaethyddiaeth a'r diwydiant ymwelwyr.
- Mae'n anhebygol y gwelir cynlluniau mawr i gyfrhau yr economi wledig ond o ystyried mân ddatblygiadau a a hyrwyddo arfer da gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru mae'n bosibl gwneud gwahaniaeth.
- Braf fyddai cadw ieuenctid y fro yn eu cymunedau.
- Tybir fod enghreifftiau a datblygiadau bychain mewn ardaloedd gwledig cyffelyb yn yr Iwerddon ac Ynys yr Ia

Cynefinoedd a Rhywogaethau
- Clytwaith o gynefionedd yw'r Wyddfa – rhaid sylweddoli a chefnogi ymdrechio i atal cynhefin byd eang a'i effaith bell cyrhaeddol ar ar bob cynefin.
- Problem gyda'r cynlluniau i atal lledaeniad planhigion estronol – yn arbenning felly yr hyn sy'n digwydd ar hyd ein hafonydd.

Tirwedd a Harddwch
- Mae wedi cymryd miliynau o flynyddoedd i greu hyn a adnabyddir fel yr Wyddfa. Mae'n ddyletswydd i ? fod prosesau naturiol yn parhau gan reoli effaith erydiad ar bobl, yr unig ffordd rydd o wneud hyn ar y 'pot

mel' yw gyda rhwydwaith o llwybrau diddos gan atgyfordi bwriadau Rhaglen yr Wyddfa yn y 70au. Golygai hyn greu gweithlu sylweddol – ond yn ei dro yn creu swyddi a chryfhau yr economi.
- Mae modd lleihau effeithiau gwrthdaro rhwng yr ymwelwyr a'r byd amaethyddol er budd y ddwy garfan.

Mynediad a Chlydiant

- Dyhead y mwyafrif o drigolion ac ymwelwyr yw cyrraedd pen eu taith yn hwylus. Mae hyrwyddo trafnidiaeth cyhoeddus yn hanfodol ac mae'r Gwasanaeth Sherpa yn engraifft glodwiw ond angen ei ehangu – eto yn gostus.
- Gellir dysgu o esiamplau eraill a chwmniau llai yn darparu gwasanaeth "arbennig".

Hamdden a Thwristiaeth

- Tybed mai y nôd fyddai 'darparu profiadau cofiadwy a bendithiol'?
- A ellir disgu o leoliadau eraill gan adnabod arferion da a safonau uchel gan gynnig arweiniad a hyfforddiant i ddarparwyr gwasanaeth.
- Y trigolion a'r darparwyr busnes sydd agosaf at yr ymwelwyr felly a oes angen eu harfogi gyda'r wybodaeth orau bosibl.
- Mae'r defnydd o wirfoddolwyr ar y mynydd wedi profi'n llwyddiannus – ond beth am sefyllfa tebyg o amgylch pentrefi'r Wyddfa.

Treftadaeth – iaith

- Hanfodol diogelu ein hetifeddiaeth a chryfhau hynny fel bod ein bobl ifanc yn gallu byw a magu teulu mewn economi wledig gadarn.
- Dylai'r Gymraeg fod yn fwy blaenllaw mae'n nodwedd unigryw i hyrwyddo adnabyddiaeth o'r ardal a chyfoeth ein diwylliant a'i hanes.

Economi

- Wedi cynnwys nifer o sylwadau eisoes.

Crynhoi

- Adnabod cyllid i wireddu amcanion.
- Coblygiadau cyflogaeth drwy gynlluniau ar y mynydd ac mewn mân fusnesau lleol.
- Angen 'datganiad o fwriad' fel bod pawb yn barod i ymuno i hyrwyddo amcanion Partneriaeth yr Wyddfa.

*Gan John Grisdale*